Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Pa wahaniaeth y mae'r Ddyletswydd yn ei gyflawni?

Rhestr o enghreifftiau awdurdodau cyhoeddus a rhestr termau i'w cyrchu i hybu rhannu arfer effeithiol.

Cymerwyd yr enghreifftiau o waith Ymchwilio a Monitro'r Comisiwn o ran awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.

Awst 2014

Rhestr o dermau i'w cyrchu.....4-6

Awdurdodau Lleol
Abertawe.....7-8
Blaenau Gwent.....8-9
Bro Morgannwg.....9
Caerdydd.....10
Caerffili.....11-12
Casnewydd.....12-13
Castell-nedd Port Talbot.....13
Ceredigion.....14
Conwy.....15-16
Gwynedd.....16
Merthyr Tudful.....17
Pen-y-bont ar Ogwr.....18
Rhondda Cynon Taf.....19-20
Sir Ddinbych.....20
Sir Fynwy.....20-21
Sir Gaerfyrddin.....21-22
Sir y Fflint.....22-23
Sir Penfro.....23-24
Sir Powys.....25
Sir Ynys Môn.....25-27
Torfaen.....27-28
Wrecsam.....28-29

Iechyd
Abertawe Bro Morgannwg.....30
Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys 31
Aneurin Bevan.....32-33
Betsi Cadwaldr.....33-34
Caerdydd a'r Fro.....35
Cwm Taf.....35-36
Felindre.....37-38
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.....38-39
Hywel Dda.....40
Iechyd Cyhoeddus Cymru.....40-41

Prifysgolion
Abertawe.....41
Aberystwyth.....42
Bangor.....43
Caerdydd.....44-45

Glyndŵr.....45
Prifysgol Casnewydd (2013).....46
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.....46
Prifysgol De Cymru.....46
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.....47
Prifysgol Morgannwg (2013).....47

Gwasanaethau Tân ac Achub

Canolbarth a Gorllewin Cymru.....48
De Cymru.....48-49
Gogledd Cymru.....49-50

Parciau Cenedlaethol

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.....51
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.....51

Eraill

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.....51-52
Catrefi RCT.....52-53
Chwaraeon Cymru.....53
Coleg Gŵyr Abertawe.....53-54
Coleg Sir Gâr.....54
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.....55
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.....55
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.....55
Cynulliad Cenedlaethol Cymru.....56
Heddlu Gogledd Cymru.....57
Swyddfa Archwilio Cymru.....57

Rhestr termau i'w cyrchu

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys enghreifftiau o waith a ymgymerodd sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru o ganlyniad i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae pob enghraifft yn ymwneud â gwaith a wnaed yn ystod 2012-2013, 2013-2014 neu a gafodd ei gasglu gan NatCen ar ran y Comisiwn yng Nghymru.

Amlygodd ymchwil NatCen yn enwedig pa mor fuddiol y byddai, i aelodau'r gyfnewidfa cydraddoldeb, allu dysgu am y gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau eraill i fynd i'r afael â chydraddoldeb a hawliau dynol.

Isod, mae rhestr termau i'ch cynorthwyo wrth edrych am enghreifftiau penodol. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol, felly os na chewch yr hyn yr ydych yn edrych amdano yn y tabl hwn, daliwch ati i chwilio'r ddogfen. Mae rhai enghreifftiau wedi'u clustnodi gan dagiau chwilio, tra bo eraill eisoes yn cynnwys y termau chwilio ym mhrif gorff y testun. Bydd y peiriant chwilio felly yn chwilio'r ddogfen gyfan, ac nid y tagiau chwilio'n unig. Bydd pob enghraifft yn nodi p'un ai a yw o'n hymchwil NatCen neu ein gwaith monitro yn 2013 neu 2014.

I chwilio'r ddogfen am derm chwilio penodol, defnyddiwch yr eicon cyrchu ar eich bar offer, ac yna teipiwch derm i'w gyrchu.

Pwnc	**Term penodol i'w gyrchu**
Oed	Oed Plant a phobl ifanc Pobl hŷn
Anabledd	Anabledd Iechyd meddwl Nam ar y clyw Nam ar y golwg Anawsterau dysgu Dementia
Rhywedd	Cyflog cyfartal Gwahanu galwedigaethol Nenfwd gwydr Trais domestig Trais yn erbyn menywod
Beichiogrwydd	Beichiogrwydd Mamolaeth
Cyfeiriadedd rhywiol	Cyfeiriadedd rhywiol LGBT

	Bwlio homoffobig
Trawsrywedd	Trawsrywedd
Crefydd neu gred	Crefydd neu gred
Hil / Lleiafrifoedd ethnig	Hil
Hawliau dynol	Hawliau dynol
Gwaith i fynd i'r afael â mwy nag un nodwedd warchodedig	traws
Asesu Effaith ar Gydraddoldeb	Asesu Effaith ar Gydraddoldeb lliniariad
Trais domestig / cam-drin domestig	Trais yn erbyn menywod MARAC Cydlynydd trais domestig Cydlynydd cam-drin domestig Siop un stop Polisi cam-drin domestig MAC (canolfan amlasiantaethol) IDVA (Ymgynghorydd/ Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol)
Iaith gyntaf heblaw am Saesneg	Saesneg fel iaith ychwanegol
Cymunedau ag eithriwyd yn gymdeithasol	Cymunedau difreintiedig Cymdeithasol-economaidd
Mentrau codi ymwybyddiaeth	Codi ymwybyddiaeth
Mentrau i fynd i'r afael â materion gweithlu	Gweithlu Recriwtio Rhwydweithiau staff hyfforddiant
Mentrau i atal problemau rhag codi	Ataliad
Menywod yn gweithio ar lefelau is proffesiwn	Gwahanu galwedigaethol
Addysg	Addysg Ysgolion Prifysgol
Chwaraeon	Chwaraeon Canolfan hamdden Canolfan chwaraeon
Llyfrgell	Llyfrgell
Ymgynghoriad	Ymgynghoriad
Ymgysylltiad	Ymgysylltiad
Troseddau casineb	Troseddau casineb

Trafnidiaeth	Trafnidiaeth Heolydd
Gwella mynediad at wasanaethau iechyd	Gwella mynediad
Ehangu mynediad at brifysgolion	Ehangu mynediad
Data / monitro cydraddoldeb	Data
Iaith Gymraeg	Iaith Gymraeg
Ceiswyr lloches	Ceiswyr lloches
Ffoaduriaid	Ffoaduriaid

Mae **Cyngor Abertawe** wedi symleiddio'r broses Asesiadau gyda mewnbwn gan feysydd gwasanaethau. Mae'r broses yn cynnwys meysydd sgrinio a gwasanaethau yn cyflawni Asesiadau gyda chefnogaeth, canllaw a sicrwydd ansawdd gan y Tîm Mynediad at Wasanaethau. Mae adroddiadau Asesiadau yn cynnwys gwybodaeth ar i ba raddau mae mentrau yn meithrin perthnasau da, yn cynnwys ystyriaeth o dlodi ac allgau cymdeithasol. Maent hefyd yn cwmpasu ymgynghori ac ymgysylltu.

Enghraifft: Adolygodd Abertawe ddetholiad o bolisïau adnodau dynol yn cynnwys mabwysiadu, tadolaeth ac absenoldeb mamolaeth. O ganlyniad i'r broses Asesiadau, diweddarwyd y polisïau i sicrhau fod perthnasau un rhyw yn cael cydnabyddiaeth ar sail cydraddoldeb gyda pherthnasau heterorywiol.

Cyfeiriadedd rhywiol, ymgysylltiad, ymgynghoriad, gweithlu, 2013

Dywedodd **Cyngor Abertawe** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb wedi digwydd mewn partneriaeth agos â Heddlu De Cymru. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â throseddau casineb ar sail anabledd. Canlyniad ymgysylltu â phobl anabl lleol oedd cyhoeddi'r adroddiad "Aflonyddu oherwydd Anabledd – Safbwynt Abertawe". Mae'r adroddiad yn cynnwys profiadau bywyd go iawn o aflonyddu ar sail anabledd ac mae'n amlinellu amryw o fecanweithiau adrodd.
Bydd y Cyngor yn llunio strategaeth i daclo troseddau casineb, yn unol â Fframwaith Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru, a'i nod fydd dwyn yr holl waith cyfredol ynghyd sy'n cael ei wneud gan y Cyngor a phartneriaid.

Hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Abertaw**e wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig yn cynnwys datblygu Cynllun Cyflenwi Cam-drin Domestig, sy'n cymryd i gyfrif Strategaeth yr Hawl i fod yn Ddiogel Llywodraeth Cymru a'i adroddiad 10,000 o Fywydau Mwy Diogel. Mae aelod etholedig wedi'i benodi'n Hyrwyddwr Cam-drin Domestig a'i rôl yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o fewn busnes y Cyngor. Mae'r Hyrwyddwr yn cadeirio'r Fforwm Cam-drin Domestig. Mae gwaith o fewn y Cynllun Cyflenwi yn cynnwys datblygu gwasanaeth cyngor a gwybodaeth Siop un Stop yng nghanol y ddinas. Mae'r gwaith hwn yn ôl yr amserlen ac mae'r gwasanaeth i fod i agor erbyn diwedd y flwyddyn.

Codi ymwybyddiaeth, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Roedd gan **Cyngor Abertawe** Wasanaeth Cyrhaeddiad i Ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig oedd yn cynnig cefnogaeth mewn addysg i blant, pobl ifainc a'u teuluoedd toc wedi iddynt gyrraedd y wlad hon a'r sir. Adroddodd eu Rheolwr Rhanddeiliad a Chyfathrebu bod hyn wedi cynorthwyo plant i 'ffynnu' yn yr ysgol ac mewn ambell achos i berfformio'n well na'u cyd-ddisgyblion brodorol fesul hyd at 10%.

hil, plant a phobl ifanc, ysgolion, NatCen

Mae **Cyngor Abertawe** yn gweithio gyda Stonewall i ddarparu hyfforddiant i athrawon ysgol wrth ddelio â bwlio homoffobaidd. Roedd hyn yn ogystal â'r hyfforddiant cyffredinol i bob pennaeth parthed y nodweddion gwarchodedig a'r PSED. Cafwyd nifer o enghreifftiau eraill o'r ffordd yr oedd hyfforddiant newydd a gwell yn debygol o gael effaith ar wybodaeth gweithwyr a darparu gwasanaethau.

Cyfeiriadedd rhywiol, ysgol, NatCen

Adolygodd **Cyngor Blaenau Gwent** ei broses Asesu i'w wneud yn haws i'w ddefnyddio, ac mae nawr yn hyfforddi dros 250 o reolwyr ar pam fod Asesiadau yn bwysig a sut i ddefnyddio'r fframwaith Asesiadau.

Enghraifft: Cyflawnodd y Cyngor Asesiad i sefydlu blaenoriaethau wrth wella ei Ganolfannau Chwaraeon. Helpodd hyn Ganolfannau chwaraeon i addasu i anghenion y bobl sy'n mynychu. Helpodd y Canolfannau i fod yn fwy effeithiol yn ariannol trwy gael gwybodaeth gywir am ddefnyddwyr ar eu system TG. Galluogodd y Cyngor i ddelio â defnydd amhriodol o barcio hygyrch, diffyg stafelloedd newid i deuluoedd, cludiant, gofal plant a mynediad i bobl hŷn

chwaraeon, canolfan hamdden, trafnidiaeth, 2013

Dywedodd **Cyngor Blaenau Gwent** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb yn ymwneud â'i Ddiwrnod blynyddol i Gofio'r Holocost. Dywedodd y Cyngor fod hwn yn oleufa i'w waith i hybu goddefgarwch a dealltwriaeth o'r gwersi o'r gorffennol a sut y gallant effeithio ar fywydau yn yr unfed ganrif ar hugain. Anerchodd y Rabi Barry Marcus, arloeswr ymweliadau Auschwitz Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost, gynulleidfa o 120 o bobl yn y digwyddiad a oedd yn cynnwys dros 60 o ddisgyblion ysgolion cyfun lleol. Mae'r digwyddiad hwn yn ymgysylltu â phlant ysgol, gan ymyrryd yn gynharach i daclo syniadau rhagfarnllyd ac atal troseddau casineb rhag codi. Mae adborth gan yr ysgolion ynglŷn â'r negeseuon o oddefgarwch y cododd y plant o'r digwyddiad wedi bod yn bositif, fel y sylw gan y cyfryngau. Yn sgil y lefel uchel o sylw gan y cyfryngau cyrhaeddodd negeseuon y digwyddiad gynulleidfa fwy fyth.

Ataliad, codi ymwybyddiaeth, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Blaenau Gwent** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig yn cynnwys rhoi polisi cam-drin domestig ar waith. Mae sicrhau bod gan staff y llinell flaen fynediad at hwn a pholisïau eraill y Cyngor wedi bod yn her arbennig. Defnyddir briffiadau rheolwyr llinell i gyrraedd staff nad yw'r swyddfa yn ganolfan iddynt. Ers cyflwyno'r polisi cam-drin domestig, mae un cyflogai wedi sôn am ddioddef cam-drin domestig. Mae'r polisi wedi darparu fframwaith i'r Cyngor i roi camau penodol yn eu lle i gefnogi'r cyflogai. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn hyderus y bydd mwy yn dod ymlaen, wrth iddynt glywed am y polisi, i sôn am gam-drin domestig.

Trais yn erbyn menywod, gweithlu, hawliau dynol , 2014

Mae **Cyngor Bro Morgannwg** wedi cynnig hyfforddiant Asesiadau i uwch swyddogion a Chynghorwyr. Mae'n adolygu ei ffurflen Asesiadau ac arweiniad i staff.

Enghraifft: Adroddodd y Cyngor ei fod wedi defnyddio Asesiad i nodi a chodi ymwybyddiaeth o anghenion yr holl grwpiau gwarchodedig parthed ei amcan o annog adrodd ar droseddau casineb. Dywedodd y Cyngor mai mater cyffredin oedd yn codi o'r Asesiadau oedd yr angen i gynhyrchu gwybodaeth y cyngor mewn iaith glir. Mae'n paratoi arweiniad ar y mater ar hyn o bryd.

gweithlu, 2013

O ran ei waith ar droseddau casineb dywedodd **Cyngor Bro Morgannwg** wrthym y bu rôl y Cydlyniad Cymunedol yn ddefnyddiol iawn wrth weithio gyda'r Tîm Cydraddoldeb a Bro Ddiogelach i wireddu gwelliannau. Cafodd y broses ar gyfer rheoli adrodd ar droseddau a helyntion casineb ei hadolygu a gwelwyd bod angen ei symleiddio. Mae protocol newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn. Yn sgil gweithio mewn partneriaeth gyda Chymru Ddiogelach gall staff y cyngor gael mynediad at hyfforddiant rhad ac am ddim ar droseddau casineb.

Gweithlu, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Bro Morgannwg** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig yn ymwneud â hyrwyddo Atal-y-Fro, darparwr gwasanaeth cam-drin domestig ym Mro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn darparu canolfan galw heibio drwy'r Bws Bro Ddiogelach, sy'n rhoi mynediad gwell i etholwyr Western Vale at wasanaethau'r darparwr.

Siop un stop, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Dywedodd **Cyngor Caerdydd** wrthym mai codi ymwybyddiaeth oedd ei brif ffocws yn ei waith ar droseddau casineb. Mae dros 340 o staff llinell flaen wedi cael hyfforddiant ar adnabod a gwahaniaethu rhwng troseddau casineb a helyntion o gasineb, yn ogystal ag atgyfeirio at asiantaethau priodol.

Cafodd y 'Gay Straight Alliance' ei lansio mewn tair ysgol yng Nghaerdydd mewn partneriaeth â'r Cyngor, i daclo bwlio homoffobig a helpu ysgolion i ddeall sut y gallant fod yn rhagweithiol wrth daclo'r broblem hon. Mae'r Cyngor mewn partneriaeth â 'Full Circle Education Solutions' a Llywodraeth Cymru wedi lansio Canllaw Arfer Da Gay/Straight Alliance (GSA) Caerdydd. Mae'r bartneriaeth wedi rhannu model arfer da'r GSA i daclo homoffobia/trawsffobia a hybu cynhwysiad mewn ysgolion a chanolfannau ieuenctid eraill.

Cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, ysgolion, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Caerdydd** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig wedi canfod fod casglu data ac ariannu'r gwasanaethau hyn wedi bod yn her. Mae diffyg ymagwedd ariannu cydgysylltiedig i gyflenwi gwasanaethau cam-drin domestig wedi bod yn hynod o anodd. I fynd i'r afael â hyn mae Cyngor Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau i rannu gwybodaeth a datblygu ymagwedd ar y cyd. Nod hyn yw cyflenwi deilliannau gwell i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig.

Mae'r Cyngor wedi ymestyn ei waith ar gam-drin domestig i gynnwys masnachu pobl a'r agenda cam-fanteisio. Drwy weithio mewn partneriaeth, fel rhan o grŵp amlasiantaeth, mae'r Cyngor yn gweithio i ddatblygu llwybrau effeithiol a ddylai hwyluso mynediad at wasanaethau.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Mae **Cyngor Caerdydd** wedi cyflawni Asesiadau yn rhan o'r broses gosod cyllidebau a pharthed materion mynediad i amrywiol adeiladau.Mae staff mewn Gwasanaethau Oedolion yn gweithredu fel Eiriolwyr Asesiad Effaith ac mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant i helpu datblygu hyder a sgiliau.

Enghreifftiau: Newidiwyd y penderfyniad i gau rhai canolfannau dydd o ganlyniad i dystiolaeth am yr effaith negyddol anghymesur ar grwpiau gwarchodedig. Cyflawnodd y Cyngor Asesiad o ddarpariaeth caffael ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a nododd ddiffyg darpariaeth chwarae posibl i blant anabl ac fe ymatebodd i ddiwallu'r diffyg.

Anabledd, gweithlu, 2013

Dywedodd **Cyngor Caerffili** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb yn seiliedig ar ei awydd i daclo'r broblem cyn iddi ddigwydd, mapio achosion o droseddau casineb a thaclo agweddau gwahaniaethol plant a phobl ifanc. O ganlyniad i hyn oll, dylai cyfraddau troseddau casineb ostwng wrth i bobl ifanc dyfu'n oedolion.

Mae Adroddiad y Cyngor ar Droseddau Casineb a Mapio Achosion ohono yn rhoi tystiolaeth fod 144 o bobl wedi dioddef troseddau casineb neu wedi adrodd am achosion ohono rhwng mis Ionawr 2012 a mis Ionawr 2013. Mae'r adroddiad yn nodi maes cyffredinol y troseddau neu'r achosion ac yn categoreiddio'r gwahaniaethu, gyda helyntion hiliol yn cyfrif am 70% ohono. Mae'r adroddiad yn glir bod y niferoedd yr adroddwyd amdanynt yn debygol o fod yn is na'r achosion sy'n wir ddigwydd.

Dywed y Cyngor fod yr adroddiad hwn yn rhoi sylfaen o dystiolaeth i lywio ymyriadau a dargedir i fynd i'r afael â throseddau casineb. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion y mae'r Cyngor wedi dechrau eu gweithredu, megis codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a chamau i daclo'r broblem yn effeithiol.

Codi ymwybyddiaeth, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Caerffili** fod ei waith ar gam-drin domestig yn cynnwys gweithredoedd i gynyddu ymwybyddiaeth. Cafodd hyfforddiant ei gyflenwi i weithwyr proffesiynol y llinell flaen, megis swyddogion cymorth tenantiaeth. Cafodd hyfforddiant ei gyflenwi ar gyffuriau a chamdrin domestig, ar berthnasau diogelach i ddisgyblion a staff ysgolion cyfun a chynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth yn y llyfrgelloedd lleol.

Clustnododd y Cyngor ddigwyddiadau cymunedol i godi ymwybyddiaeth, megis diwrnod y Rhuban Gwyn. Mae gwaith arall yn cynnwys cyfeirlyfr i ddefnyddwyr gwasanaeth ar gam-drin domestig i alluogi cydlyniad a systemau atgyfeirio effeithiol ar draws Caerffili, MARACs a ffurflen atgyfeirio gyntaf y Ganolfan Aml Asiantaeth i'w defnyddio fel rhan o broses fonitro'r ganolfan.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Eglurodd **Cyngor Caerffili** nad oeddynt, cyn y PSED, yn ymwybodol o'r holl grwpiau lleol a oedd, o bosibl, yn cynrychioli nodweddion gwarchodedig y medrent fynd atynt at gyfer ymgynghori. Ers cyflwyno'r PSED roeddynt wedi nodi mwy o grwpiau ac unigolion. Erbyn hyn maent yn ymgynghori â'r grwpiau hyn fel rhan o'u proses cynigion. Er enghraifft, roedd eu gwasanaethau amgylcheddol wedi ymgynghori ar newidiadau i barcio ar gyfer pobl ag anabledd gyda grwpiau lleol o bobl ag anableddau. Er mwyn cefnogi staff oedd yn ymwneud ag ymarferion ymrwymiad, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu arweiniad ymgynghori sydd yn cynnwys gwybodaeth ar bwysigrwydd ymrwymiad i grwpiau gwarchodedig a rhestr o grwpiau lleol a sefydliadau gwirfoddol.

Ymgysylltiad, gweithlu, hawliau dynol, NatCen

Roedd **Cyngor Caerfifili** wedi brwydro i sicrhau bod y gwaith papur a ddarparwyd gyda thendrau yn egluro gofynion y Cyngor ar gydraddoldeb cyn cynnig hyfforddiant addas. Yn dilyn hyfforddiant addas ar gydraddoldeb, gan ddefnyddio astudiaethau achos caffael gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, cafwyd gwared ar y cyndynrywdd i ymwneud â'r math hyn o weithgarwch. Roedd y tîm yn deall bellach pam yr oedd angen cymryd y camau hyn.

gweithlu, NatCen

Mae **Cyngor Casnewydd** yn cyflawni Asesiad ar benderfyniadau cyllideb, ac mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o'r effaith amcanol a chamau lliniarol.

Enghraifft: Cynigiodd y Cyngor y byddai'n lleihau cyllid i Wasanaethau Cefnogaeth Cerddoriaeth Gwent. Ystyriodd y broses Asesiad yr effaith ar wahanol grwpiau. Ni newidiodd hyn y penderfyniad, ond fe arweiniodd at sefydlu cronfa caledi.

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, 2013

Dywedodd **Cyngor Casnewydd** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb a chydlyniad cymunedol yn aros yn flaenoriaeth, er i'r ffigurau adrodd ar achosion / troseddau casineb yng Nghasnewydd ostwng o 11% dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
Cafodd fideos gan amlasiantaethau eu comisiynu i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, ac ynddynt mae enghreifftiau o droseddau casineb ar sail anabledd, hil, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Diben hyn oedd codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn erbyn grwpiau penodol yn y gymuned.

Cafodd diwrnod o weithgareddau ei gynnal mewn partneriaeth â Tell MAMA ar gyfer mosgiau yng Nghasnewydd. Prosiect Lloegr yw Tell MAMA i fesur ymosodiadau gwrth- Fwslimaidd drwy ddarparu cyfrwng ar gyfer adrodd am achosion o'r fath a'u cofnodi a'u dadansoddi i sicrhau bod y data yn gywir ac yn ddibynadwy. Cynlluniwyd y camau i gynyddu adrodd ar droseddau casineb gwrth-Fwslimaidd yng Nghasnewydd, i ategu'r gwaith mapio ledled y Deyrnas Unedig sy'n cael ei gyflawni gan Faith Matters.

Crefydd neu cred, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Casnewyd**d wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig wedi esgor ar fuddsoddiad arwyddocaol mewn tîm amlddisgyblaeth dan ofal y Cydlynydd Cam-drin Domestig.

Cafodd Strategaeth Cam-drin Domestig Casnewydd ei roi ar waith ac mae llawer o orchwylion cynllun gweithredu'r Cyngor wedi eu cyflawni. Mae'r Cyngor wedi penodi Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) i gefnogi pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, ac mae 145 o atgyfeiriadau at MARAC wedi'i wneud gan wasanaeth IDVA Casnewydd. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rheiny a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth (96.5%) dderbyn cymorth. Mae'r Cyngor wedi adolygu a chyhoeddi cyfeirlyfr o wasanaethau cam-drin domestig Casnewydd. Mae'n sicrhau bod gwybodaeth ar y gefnogaeth sydd ar gael i'r rheiny sy'n dioddef cam-drin domestig yn eang ac yn hawdd ei gael.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Mae **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** yn cyflawni Asesiadau ar gyllidebau arfaethedig a newidiadau arfaethedig i wasanaethau rheng flaen. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn gynyddol ymwybodol o effaith cronnol y cynigion ar draws Cyfarwyddiaethau ar y bobl fwyaf difreintiedig. Adrodda'r cyngor ei bod yn anodd iawn lliniaru effaith cronnol cynigion. Bydd angen monitro hyn yn ofalus mewn blynyddoedd i ddod.

Enghreifftiau: Mae Adran Gwasanaethau Gwastraff y Cyngor wedi gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu Rhwydwaith Anabledd i ddeall y problemau a achosir gan y modd y cyflawnir gwasanaethau gwastraff. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i wella hygyrchedd.

O ganlyniad i Asesiad o bolisi trafnidiaeth ysgolion, roedd y Cyngor yn gallu arddangos tryloywder yn ei broses gwneud penderfyniadau a sefydlu camau gweithredu lliniarol.

Cymunedau difreintiedig, anabledd, llinariad, ysgolion, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Cyngor Ceredigion** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb yn mynd i'r afael â gweithred, o Arolwg Blynyddol ar Les Disgyblion Ysgol yn 2011, a oedd yn gysylltiedig â bwlio difrifol ar sail hil. Yn dilyn ymyriad rhagweithiol gan ysgolion, yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, gwnaeth y nifer o blant oedd yn adrodd ar fwlio ostwng gryn dipyn. Cafodd gweithdai eu rhedeg gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ar gyfer disgyblion blwyddyn naw, a chynhaliwyd sesiwn cyfddydd i athrawon i'w hyfforddi i herio iaith hiliol yn effeithiol.

Dangosodd canlyniadau'r Arolwg Lles gynnydd arwyddocaol o ran disgyblion Blwyddyn 10 flwyddyn yn ddiweddarach. Yn sgil yr ymyriadau hyn, gostyngodd yr achosion o fwlio hiliol yn Llanbedr Pont Steffan o 30% rhwng 2011-2012 a 2012-2013, ym Mhenglais o 29.3% ac yn Aberaeron o 16%. Mae llwyddiant y prosiect hwn wedi arwain at fentrau mewn ysgolion cynradd.

Hil, ysgolion, hyfforddiant, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Cyngor Ceredigion** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig yn cynnwys penodi Cydlynydd newydd ar Gam-drin Domestig i alluogi cydlyniad a rheolaeth mwy effeithiol o waith y Cyngor.

Mae prosiectau codi ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal ar draws Ceredigion, gyda ffocws penodol ar bobl ifanc. Gwnaeth pob ysgol uwchradd gyfranogi mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth yn ystod 2013/2014, gan arwain at ddealltwriaeth well o berthnasau iachus. Mae'r ymyriad ataliol hwn wedi'i gynllunio i ostwng achosion o gam-drin domestig yn y cenedlaethau i ddod.

Mae gwaith pellach gan Gymorth i Fenywod Gorllewin Cymru gydag ysgolion a cholegau yn gysylltiedig â'r Rhaglen STAR ('Safety, Trust a Respect'). Mae hyn yn caniatau i'r rheiny sydd wedi bod yn dyst i gamdriniaeth neu wedi'i dioddef ddygymod â'u profiadau. Mae ymchwil hydredol yn awgrymu bod yr ymagwedd hon yn lleihau achosion o gamdrin domestig yn y genedlaeth ddilynol, er y mae'n rhy gynnar i asesu hyn yng Ngheredigion.

Ysgolion, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Dywedodd **Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych** wrthym fod eu gwaith ar droseddau casineb wedi'i ymgymryd drwy Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych sydd hefyd yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Conwy a Thimau Troseddau Ieuenctid Sir Ddinbych. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn gweithio i wella adrodd ymhlith cymunedau pobl anabl a LGBT ac mae wedi buddsoddi mewn Gwaith Allgymorth drwy Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) i daclo troseddau casineb. Mae dolenni gan Gyngor Conwy ar ei wefan i Gymru Ddiogelach i ddarparu gwybodaeth ar wasanaethau i helpu gwella adrodd. Bu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych hefyd yn gweithio i ostwng achosion o ddioddefwyr yn ail-ddioddef troseddau casineb (hynny yw, pobl sy'n dioddef troseddau casineb fwy nag unwaith). Yn 2012-2013 roedd 24% o droseddau casineb yr adroddwyd arnynt yng Ngogledd Cymru yn ymwneud â phobl a oedd wedi dioddef troseddau casineb fwy nag unwaith. Mae Adran Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi cynhyrchu hyfforddiant ar Urddas a Pharch i'w staff a darparwyr gwasanaeth cymeradwy. Er nad yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â throseddau casineb, mae'n rhan o ddarlun mwy i leihau camdriniaeth.

Hawliau dynol, gweithlu, adroddiad am, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, 2014

Dywedodd **Cynghorau Conwy a Sir Ddinbych** wrthym am eu gwaith ar gam-drin domestig i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc. Mae grŵp theatr leol o'r enw CatsPaw wedi'i ariannu i addysgu plant ysgol am gam-drin domestig ac i godi ymwybyddiaeth yn fwy eang ymhlith yr ifanc. Drwy'r Is-grŵp Partneriaeth Bobl Ifanc a Phlant mae'r ddau gyngor hyn yn cydweithio ar strategaeth gam-drin domestig ar gyfer addysgu pobl ifanc am berthnasau diogel. Mae Cyngor Conwy wedi cyflwyno polisi i staff ar Gam-drin Domestig ac mae manylion cyswllt Llinell Gymorth wedi'u gosod ymhob toiled i staff yn holl leoliadau'r Cyngor gan gynnwys Canolfannau Hamdden, Theatrau a Llyfrgelloedd. Mae rhwydwaith o swyddogion cyswllt Cam-drin Domestig wedi'i enwi a chafwyd hyfforddiant i'w helpu i ddelio â materion ynghylch Cam-drin Domestig.

Ysgolion, llyfrgell, gweithlu, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Adrodda **Cyngor Conwy** fod Asesiadau wedi eu mewnosod ar bob cam o'r broses o wneud penderfyniadau – Tîm Uwch Reolwyr, Grŵp Adrodd ac Adolygu, Craffu, Cabinet a'r Cyngor. Mae gan y Cyngor Bolisi Asesiadau yn amlinellu'r broses Asesu, yn cynnwys y ddyletswydd i gyhoeddi ar ei wefan. Ceir rhestr o Asesiadau a gwblhawyd yn flaenorol gydag adroddiadau blynyddol blaenorol.

Enghraifft: Cyflawnodd Conwy Asesiad ar ei strategaeth Moderneiddio Llyfrgelloedd ac mae hyn wedi amlygu'r amrywiol effeithiau ar wahanol grwpiau a ystyriwyd wrth ailgynllunio darpariaeth gwasanaethau. Y canlyniad oedd adolygu'r gwasanaeth llyfrgell symudol i'w wneud yn fwy hygyrch trwy gyflwyno llwybrau atodol.

llyfrgell, lliniariad, 2013

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** wedi defnyddio gwybodaeth sociodemograffaidd ac ymgynghori i osgoi toriadau yn eu gwasanaethau llyfrgell a allai fod wedi effeithio'n niweidiol ar bobl oedrannus a phobl ag anableddau. 'O ganlyniad i'r ymgynghori, mae'r Gwasanaeth llyfrgelloedd wedi bod yn gweithio gyda chymunedau lleol i drefnu Llyfrgelloedd Cymunedol er mwyn ateb galwadau cymunedau. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio gwirfoddolwyr i ymestyn y nifer o oriau a gyllidir gan yr Awdurdod Lleol' (CY).

Cymdeithasol-economaidd, oed, anabledd, hawliau dynol, NatCen

Dywed **Cyngor Gwynedd** fod Asesiad wedi cryfhau'r broses graffu parthed adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cabinet. Yn ogystal, mae wedi arwain at ymgysylltu mwy hygyrch a thryloyw gyda grwpiau gwarchodedig.

Enghraifft: Adroddodd y Cyngor fod yr Asesiad o Bolisi Trafnidiaeth Ôl-16 (Addysg) wedi arwain at newid polisi er mwyn i fyfyrwyr anabl allu cael mynediad at gefnogaeth i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd yr ysgol neu'r coleg. Roedd y polisi blaenorol yn seiliedig ar ddefnyddio tacsis, ond roedd myfyrwyr anabl eisiau'r cyfle i deithio gyda myfyrwyr eraill a chael mwy o annibyniaeth.

anabledd, 2013

Dywedodd **Cyngor Gwynedd** fod ei waith ar droseddau casineb wedi canolbwyntio ar weithio ar lefel lleol, gan weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru i herio'r broblem hon a mynd i'r afael â hi. Caiff cyfarfodydd eu cynnal pob tri mis rhwng Swyddogion Cydraddoldeb a Thîm Amrywiaeth yr Heddlu i adolygu a dadansoddi data ac achosion yn ymwneud â throseddau casineb. Cafodd fframwaith ei sefydlu i alluogi gweithio ar y cyd effeithiol a rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid amrywiol.

Hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Gwynedd** fod ei waith ar gam-drin domestig wedi cynnwys penodi Ymgynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a chreu MARAC. Mae'r Ymgynghorydd yn sicrhau bod pobl sy'n dioddef camdrin domestig yn cael cymorth priodol ac amserol drwy'r broses gyfiawnder, waeth beth yw eu rhywedd. Mae'r MARAC yn dwyn nifer o wasanaethau statudol a gwirfoddol ynghyd i gynllunio diogelwch a chefnogaeth. Ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn ymatebodd MARAC i argymhellion Adolygiad Gweithredoedd Cymunedol yn erbyn Cam-drin Domestig a chafodd cynllun gwella ei roi ar waith.

Cam-drin domestig, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Dywedodd **Cyngor Merthyr Tudful** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb yn gysylltiedig ag aildrefnu gwasanaethau i gyflawni ymagwedd siop un stop at gyflenwi gwasanaeth o ansawdd uchel i gwsmeriaid.

Mae staff y llinell flaen wedi ymgymryd â Hyfforddiant Cydraddoldeb Corfforaethol i'w paratoi ar gyfer newidiadau ac roedd troseddau casineb yn rhan fawr ohono. Canolbwyntiodd yr hyfforddiant ar sut y gallai staff nodi troseddau a helyntion casineb a sut y gallent helpu i gynyddu'r lefelau o adrodd. Cafodd y staff wybodaeth am rai o'r rhwystrau allweddol sy'n atal pobl sy'n dioddef troseddau casineb rhag adrodd amdanynt, a sut y gallai staff gynorthwyo'r cymunedau sy'n fwy agored i niwed y maent yn eu gwasanaethu. Ochr yn ochr â hyn, mae system adrodd ar droseddau casineb wedi'i lwytho ar wefan newydd Cydlyniad Cymunedol a chafodd staff wybod amdano fel cyfrwng gwahanol i adrodd. Mae'r staff yn fwy cymwys i gynorthwyo aelodau'r cyhoedd wrth i'r rheiny gydnabod eu bod yn dioddef troseddau casineb ac i adrodd amdanynt.

Gweithlu, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Merthyr Tudful** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig yn allweddol oherwydd y nifer uchel o achosion yn y fwrdeistref. Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014 anfonwyd 1,452 o atgyfeiriadau at Ganolfan AmlAsiantaeth Teulu. Yn 2013 roedd gan Ferthyr Tydfil y gyfradd uchaf o atgyfeiriadau uchel risg drwy'r MARAC nag unrhyw MARAC arall yng Nghymru. Mae Merthyr Tydfil wedi canolbwyntio ei waith ar benodi Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a sefydlu Tîm Adnoddau Cam-drin Domestig.

Mae196 o fenywod a 12 o ddynion wedi elwa o'r gwasanaethau hyn a chael cymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r rhai a oedd yn y dosbarth uchel ei risg, cafodd 236 eu hatgyfeirio at yr IDVA a bellach mae 86 wedi derbyn cymorth.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Mae **Cyngor Merthyr Tudful** wedi defnyddio Asesiad i hysbysu penderfyniadau ar feysydd gwasanaethau. Mae pob adran yn y Cyngor yn cyflawni Asesiad ar ei gynigion cyllideb. Dywedodd Merthyr fod Asesiadau wedi amlygu'r angen am ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a'r angen am dryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Enghraifft: Adroddodd y Cyngor fod yr Adran Briffyrdd wedi cyflawni Asesiad parthed mesurau lliniaru traffig yn y Fwrdeistref Sirol ac o ganlyniad roedd penderfyniadau wedi eu hysbysu gan farnau gwahanol grwpiau gwarchodedig.

heolydd, 2013

Mae pecyn Asesiad Effaith Cydraddoldeb **Cyngor Pen-y-bont** nawr yn cael ei brofi ar draws yr holl feysydd gwasanaeth. Mae'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig ac yn galw am fewnbwn ar ymgynghori, camau lliniarol a chynllun gweithredu. Mae rheolwyr yn cael eu hyfforddi ac fe sefydlwyd cyfres o enghreifftiau arfer gorau.

Enghraifft: Dywedodd y Cyngor wrthym ynglŷn â sut oedd Asesiad wedi dylanwadu ar gynlluniau i ail-leoli Llyfrgell Pen-y-bont. Arweiniodd yr Asesiad at addasu cynlluniau'r llyfrgell newydd gyda mwy o lefydd parcio, ystyriaeth i fws gwennol, a threfniant i adael llyfrau i'w casglu yng nghanol y dref.

Traws, lliniariad, 2013

Dywedodd **Cyngor Pen-y-bont** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb wedi'i ategu gan y Grŵp Adolygu Troseddau Casineb a Fforwm Cydraddoldeb Pen-y-bont. Lluniodd y Fforwm ddaflen chwalu mythau i daclo camsyniadau traddodiadol ynglŷn â phobl yn hawlio budd-daliadau anabledd, drwy ddefnyddio enghreifftiau o fywydau go iawn pobl ym Mhen-y-bont. Pwrpas yr ymyriad hwn oedd dileu agweddau negyddol ynglŷn â lloffwyr budd-daliadau a all yn aml ddatblygu'n droseddau casineb ar sail anabledd.

Anabledd, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Pen-y-bont** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig wedi esgor ar bolisi cam-drin domestig yn y gweithle yn ogystal ag amddiffynwyr rhag cam-drin domestig ymhob adran gwasanaeth, a chyfres o becynnau gwybodaeth ar gyfer cyflogeion. Ceir y pecynnau gwybodaeth ar wefan y Cyngor ac ar ei fewnrwyd i alluogi staff y llinell flaen gael mynediad at yr wybodaeth hon. Cynyddodd y nifer o staff oedd yn mynychu'r protocol cam-drin domestig a chanllaw rheolwyr o 460% y llynedd.

Fel darparwr gwasanaeth, mae nifer yr achosion o gam-drin domestig y soniwyd amdanynt rhwng chwarter cyntaf 2012 a'r un cyfnod yn 2013 ym Mhenybont wedi codi o 65% ers penodi cydlynydd trais domestig. Mae cyngor Pen-y-bont yn hyderus bod y negeseuon yn cael eu clywed.

Cydlynydd cam-drin domestig, gweithlu, hyrwyddwr, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Mae gan **Gyngor Rhondda Cynon Taf** broses Asesiadau sgrinio ac mae'n cyflawni Asesiadau llawn ar y gyllideb flynyddol a phenderfyniadau mawr.

Enghreifftiau: Un canlyniad i'r Asesiadau yw gwelliant yn y ddarpariaeth o wybodaeth mewn ieithoedd heblaw Saesneg ac ar ffurfiau amgen megis Braille a Hawdd Eu Darllen. Adroddodd RhCT ei fod wedi sefydlu polisi staff ar eni plant ar ran pobl eraill a pholisi ar gefnogi staff o ran ailbennu rhywedd o ganlyniad i Asesiadau.

Saesneg fel iaith ychwanegol, anabledd, gweithlu, trawsrywedd, 2013

Dywedodd **Cyngor Rhondda Cynon Taf** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb, oherwydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, wedi canolbwyntio yn union ar yr hyn oedd eisiau ei wneud.

Bu codi ymwybyddiaeth yn elfen allweddol o'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef i daclo troseddau casineb ar draws y fwrdeistref. Cafodd deunyddiau penodol eu datblygu ar droseddau casineb a'u defnyddio mewn amryw o ddigwyddiadau ymgysylltu. Cafodd diwrnodau cyhoeddus agored eu cynnal lle lledaenwyd deunydd ar droseddau casineb. Yn sgil y gwaith hwn mae gan filoedd o bobl wybodaeth well ar droseddau casineb, gydag o leiaf tri pherson a fynychodd y digwyddiadau wedi eu hatgyfeirio at asiantaethau priodol. Dywedodd y Cyngor wrthym na fyddai'r gwaith hwn, mewn gair, wedi ei gyflawni heb nod cydraddoldeb penodol ar droseddau casineb.

Codi ymwybyddiaeth, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Rhondda Cynon Taf** wrthym ei fod wedi adolygu, ail-lunio ac ail-lansio ei bolisi cam-drin domestig yn y gweithle yn sgil ei waith ar gam-drin domestig. O ganlyniad i hyn cafodd hyfforddiant ar gam-drin domestig ei gyflenwi i staff iechyd galwedigaethol i'w helpu i ddeall, nodi ac atgyfeirio achosion posibl o gam-drin domestig yn effeithiol.

Gweithlu, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Mae **Cyngor Rhondda Cynon Taf**, wedi gweithredu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol ar y system DASH (Trais ar yr Aelwyd, Stelcian ac Aflonyddu) i'w cynorthwyo i adnabod yn well y bobl hynny sy'n wynebu risg o drais ar yr aelwyd. Byddai hyn yn galluogi gweithwyr cymdeithasol i gyfeirio pobl fregus i'r cydlynydd digwyddiad a thrais ar yr aelwyd.

Trais yn erbyn menywod, gweithlu hawliau dynol, NatCen

Roedd **Cyngor Rhondda Cynon Taf** wedi datblygu amcan o gwmpas mater ‘Mynd i’r Afael ag Ymddygiad Negyddol’ a ddeilliodd o’u hymgynghoriad gyda’r gymuned leol am eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Datblygodd y Cyngor hyfforddiant i wneud eu gweithwyr yn fwy ymwybodol o sut gall agweddau ac ymddygiad negyddol gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

gweithlu, NatCen

Adroddodd **Cyngor Sir Ddinbych** ei fod wedi canolbwyntio adnoddau ar sicrhau fod staff yn arwain meysydd darparu gwasanaethau yn deall ac yn cyflawni Asesiadau. Mae’r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol yn cynnwys uwch staff ac aelodau etholedig ac mae’n arwain gwaith i wella ansawdd Asesiadau.

Dywed y Cyngor fod Asesiad o’i Gynllun Corfforaethol 2012-17 wedi arwain at roi ystyriaeth i ddeilliannau gwahaniaethol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig mewn rhai blaenoriaethau corfforaethol. Er enghraifft, parthed gwella perfformiad mewn addysg, mae’r Cyngor yn monitro perfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr (grwpiau rhyw, prydau ysgol am ddim, Saesneg fel iaith atodol, ac ati) yn ogystal â lefelau cyrhaeddiad cyffredinol.

Gweithlu, cymdeithasol-economaidd, Saesneg fel iaith ychwanegol, 2013

Mae **Cyngor Sir Fynwy** yn adolygu ei broses Adolygiadau i sicrhau y cwblheir ‘dogfen cydraddoldeb’ ar y cyfle cyntaf wrth ddatblygu polisi neu ad-drefnu gwasanaethau. Mae canllaw yn cael ei baratoi i wella ansawdd Asesiadau.

Enghraifft: Adroddodd y Cyngor mai dim ond i ddefnyddwyr gwasanaethau benywaidd oedd ei ddarpariaeth cefnogaeth camdriniaeth ddomestig wedi bod ar gael tan yn ddiweddar. Wrth gydnabod fod y nifer a effeithir yn llawer llai, yn dilyn cyflawni Asesiad mae’r Cyngor bellach yn cynnig gwasanaeth tebyg i ddynion sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig.

Hawliau dynol, 2013

Rhoddwyd enghraifft arall o AEC yn cael eu defnyddio i liniaru toriadau gan **Gyngor Sir Fynwy**.Yn yr achos hwn teimlai'r cyfranogwr bod asesiad effaith wedi atal gwahaniaethu anuniongyrchol trwy atal toriadau yn y gyllideb drafnidiaeth ar gyfer disgyblion oedd yn mynychu ysgol Cymraeg ac ysgolion ffydd. Credid y byddai hyn yn gwahaniaethu oherwydd mewn rhai achosion roedd yr ysgol ffydd agosaf dros awr i ffwrdd ac ni fedrai disgyblion fynychu ysgol ffydd o'u dewis.

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, ysgolion, crefydd neu gred, hawliau dynol, 2013

Mae **Cyngor Sir Fynwy** wedi gwella ei phroses AEC, a bellach rhaid i holl gynigion y Cyngor gael eu cyflwyno gydag AEC a gaiff ei ystyried yn gynnar yn y broses benderfynu. Mae'r ymagwedd newydd hon wedi arwain at ganlyniadau amrywiol ar gyfer y gymuned. Er enghraifft, canfuwyd bod cynnig i ddiffodd goleuadau stryd yn y nos wedi peri pryder i bobl oedrannus. Mae'r cynnig yn dilyn proses apêl i sicrhau nad yw yn gweithredu yn erbyn oedran. Nododd Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor: *'Yn y gorffennol, byddai'n fater o 'dyna anlwcus' a byddem wedi diffodd y goleuadau stryd. Ond gan fod ganddo gymaint o effaith negyddol ar bobl oedrannus, mae swyddogion yn tueddu i'w ystyried yn fwy gofalus bellach'.*

Pobl hŷn, oed, 2013

Defnyddiodd **Cyngor Sir Gaerfyrddin** Asesiad yn ystod y broses o osod cyllidebau a darparu hyfforddiant Asesiadau i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at rai newidiadau arwyddocaol i gyflawniad gwasanaeth.

Enghreifftiau: Bellach mae cyswllt rhwng Gwasanaethau Hamdden a Gofal Cymdeithasol i sicrhau fod cymorth ar gael ar gyfer pobl anabl mewn anolfannau hamdden ar gyfer rhan o'r dydd.

Adroddodd y cyngor fod Asesiadau wedi cefnogi ei gynigion moderneiddio, gan arwain at fynediad cynyddol i'r anabl a sefydlu ystafelloedd ffydd a mesurau eraill. Cyflawnodd y Cyngor Asesiadau parthed Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl a gwnaethpwyd gwelliannau i gynyddu hyblygrwydd darpariaeth gwasanaeth.

Anabledd, crefydd neu gred, 2013

Dywedodd **Cyngor Sir Gaerfyrddin** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb yn ymwneud â gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed Powys, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Tîm Troseddwyr Ifanc drwy Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerfyrddin. Ymwelodd Cydlynydd Cydlynu'r Gymuned Ranbarthol â Chynhadledd Heddlu Dyfed Powys ar Droseddau Casineb. Cafodd gwybodaeth o'r Gynhadledd hon, megis gwelliannau i system y ganolfan alwadau o ran adnabod troseddau casineb a helyntion o gasineb, ei ddosbarthu i grwpiau cymunedol, partneriaid a swyddogion awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau bod asiantaethau yn gallu darparu gwybodaeth gywir i ddefnyddwyr gwasanaethau troseddau casineb gan gynnig gwasanaeth o ansawdd gwell.

I adeiladu ar y gwaith rhannu gwybodaeth hyn, cafodd modiwlau eddysgu ar godi ymwybyddiaeth ac adrodd ar droseddau casineb eu llunio ar gyfer Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Benfro. Mae'r hyfforddiant yn agored i holl staff a Chynghorwyr Cyngor Caerfyrddin, ond mae wedi'i dargedu'n benodol i staff y llinell flaen, megis swyddogion tai, gweithwyr ieuenctid a staff canolfannau galwadau.

Gweithlu, codi ymwybyddiaeth, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Sir Gaerfyrddin** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig yn gysylltiedig â gweithio gyda Chymorth i Fenywod a'r Fforwm Cam- drin Domestig. Mae'r bartneriaeth hon ynghyd ag arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi ei alluogi i gadw swydd bwrpasol i gefnogi achosion risg uchel. Gwnaeth hyn gefnogi 315 o bobl gan gynnwys 116 yn y llysoedd. Mae'r ffynhonnell barhaus hon o gefnogaeth a chyngor yn hanfodol wrth helpu pobl i ddianc rhag camdriniaeth a chael mynediad at gyfiawnder. Mae saith deg chwech o larymau monitro wedi'u gosod a chafodd 164 o bobl welliannau diogelwch i'w tai, i'w helpu i deimlo'n ddiogelach.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Mae **Cyngor Sir y Fflint** yn ystyried sut yw'r ffordd orau o gefnogi Penaethiaid Gwasanaethau i gyflawni Asesiadau. Mae'n casglu enghreifftiau o arfer da.

Enghreifftiau: Adroddodd Sir y Fflint ei fod wedi cyflawni Asesiad ar y Strategaeth Comisiynu Gofalwyr yn arwain at newidiadau sylweddol megis taliadau uniongyrchol ar gyfer gofalwyr, cryfhau cefnogaeth i ofalwyr ifanc sy'n oedolion a delio ag anghenion grwpiau gwarchodedig nad oeddynt yn cael mynediad at gefnogaeth. Mae gwasanaethau a gomisiynir nawr yn angenrheidiol i ddarparu gwybodaeth monitro cydraddoldeb.

Dywedodd Sir y Fflint ei fod wedi rhoi terfyn i daliadau ar gyfer gofalwyr a chynorthwyon personol yn cefnogi pobl anabl i ddefnyddio canolfannau hamdden o ganlyniad i Asesiad. Yn dilyn hyn gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl anabl oedd yn defnyddio'r gwasanaethau.

Pobl ifanc, anabledd, 2013

Dywedodd **Cyngor Sir y Fflint** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb yn cynnwys creu tîm ymateb amlasiantaeth i ddelio ag achosion o droseddau casineb ac, yn benodol, â helyntion sy'n cael eu hail-adrodd. Mae un enghraifft o ymateb effeithiol yn gysylltiedig ag achos teulu Mwslimaidd a oedd yn dioddef achosion o droseddau casineb dro ar ôl tro. Cymerwyd hwn at dîm ymateb amlasiantaeth a oedd yn rhannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill; gosodwyd camerâu cylch cyfyng gweladwy a dywedwyd wrth denantiaid y cyngor y byddai camau yn cael eu cymryd yn eu herbyn oni bai i'r achosion ddarfod. Canlyniad yr ymateb chwim hwn oedd gostwng y nifer o achosion yn erbyn y teulu.

Mae enghraifft bellach yn gysylltiedig â grŵp o ddynion o grŵp lleiafrifoedd ethnig arbennig yn yfed ar y stryd. Yn sgil hyn cafodd trigolion eu cythruddo gan gwyno am ymddygiad gwrth gymdeithasol. Ymatebodd y Cyngor drwy ddynodi mannau dialcohol, yn ogystal ag ymgymryd ag ymgyrch hybu amlieithog ynglŷn â pheidio ag yfed mewn mannau cyhoeddus. Gallai'r sefyllfa hon fod wedi ei gwaethygu ac achosi helyntion o droseddau casineb yn erbyn y gymuned hon, ond gwnaeth ymyriad y Cyngor atal hynny.

Crefydd neu gred, MARAC, hil, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Sir y Fflint** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig wedi esgor ar lansiad polisi cam-drin domestig yn ei weithle. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y polisi gan reolwyr yn dilyn hyfforddiant. Ers i fanylion y polisi gael eu gosod ar y fewnrwyd, mae pedwar cyflogai wedi sôn am ddioddef cam-drin domestig yn eu bywydau. Yn sgil hyn mae mesurau wedi'u gosod i gynorthwyo aelodau staff i barhau i weithio ac i fod yn hyderus yn eu diogelwch yn y gwaith.

Gweithlu, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2013

Mae **Cyngor Sir Penfro** wedi adolygu ei becyn offer asesu effaith cydraddoldeb ac mae'n ei hyrwyddo i reolwyr allweddol yn yr awdurdod.

Enghreifftiau: Adroddodd y Cyngor ei fod wedi cyflawni Asesiad wrth ailstrwythuro'r Tîm Troseddau Ieuenctid o ganlyniad i dorri cyllideb. Yn dilyn yr Asesiad, atgyfnerthodd y Cyngor y gefnogaeth i'r gwirfoddolwyr oedd â chyswllt uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.

Cyflawnodd Sir Benfro Asesiad ar ei ddetholiad o raglenni sgiliau cyflogadwyedd – Gwaith yn yr Arfaeth. O ganlyniad cafodd gwasanaethau eu hail-leoli i fod yn gyfleus i ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus a chynyddu mynediad corfforol. Yn ogystal, darparwyd gwybodaeth ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Anabledd, anawsterau dysgu, 2013

Dywedodd **Cyngor Sir Penfro** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb yn digwydd yn erbyn cefndir o ffigurau troseddau/achosion casineb sy'n gymharol isel o'u cymharu ag awdurdodau lleol eraill. Dros y ddwy flynedd ers i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ddod i rym mae nifer yr helyntion a adroddwyd arnynt wedi gostwng o tua 30%. Er hynny mae'r Cyngor wedi archwilio ffyrdd i ddelio yn effeithiol ag adroddiadau o droseddau casineb drwy sefydlu MARAC. Roedd y Cyngor yn aros am gyhoeddiad Fframwaith Troseddau Casineb Llywodraeth Cymru i lywio ei raglen waith yn y dyfodol.

Hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Sir Penfro** wrthym fod gwaith ar gam-drin domestig wedi ymwreiddio'r broblem honno ym meddylfryd y Cyngor. Cafodd rôl y cydlynydd cam-drin domestig ei wneud yn swydd llawn amser, sy'n adlewyrchu pa mor bwysig yw'r gwaith hwn yn llygaid y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn rhedeg 'Parch Sir Benfro - Rhaglen Cam-drin Domestig i Ddynion'. Mae'r prosiect hwn yn taclo cam-drin domestig drwy weithio gyda thramgwyddwyr a chefnogi'r sawl sy'n dioddef camdriniaeth. Cafodd rhaglenni tebyg eu rhedeg eisoes. Dechreuodd y rhaglen ddiweddaraf y llynedd. Ei nod yw helpu dynion i beidio â bod yn dreisgar ac ymosodol, eu dysgu sut i ymgysylltu â'u cymheiriaid mewn ffordd barchus a chyfartal, a'u helpu i ddelio ag anawsterau o fewn eu perthynas deuluol heb ymddwyn yn ymosodol a sut i ymgodymu â dicter. Er ei fod yn rhy gynnar i werthuso'r prosiect diweddaraf, dangosodd tystiolaeth o raglen debyg na fu bron neb o gymheiriaid y 17 o fenywod, a oedd wedi cymryd rhan, yn dreisgar. Roedd yr holl gam-drin wedi peidio o'r braidd ac nid oeddent wedi dioddef unrhyw gam-drin gorfforol yn ystod y tri mis diwethaf.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Roedd **Cyngor Sir Penfro** yn ceisio lleihau'r troseddau casineb a wynebir gan bobl â nifer o nodweddion gwarchodedig: hil, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Er mwyn gwneud hyn roeddynt yn datblygu ymagwedd Cynhadledd Asesu Risg Aml Asiantaeth, i atgyfnerthu cysondeb yn y dull o asesu pryderon pobl sydd wedi profi troseddau casineb. At hyn, bydd yn galluogi sefydliadau partner i rannu gwybodaeth. At hyn, mae'r Cyngor wedi parhau'r ymrwymiad i grwpiau cymunedol sydd yn ystyried troseddau casineb yn fater o bryder mawr. Lansiwyd deunydd e-ddysgu ym mis Medi 2013 hefyd, i godi ymwybyddiaeth ymhlith y gweithlu o droseddau casineb yn y gymuned.

trawsrywedd, MARAC, NatCen

Mae **Cyngor Powys** wedi cynnwys Asesiadau yn ei broses cynllunio busnes.

Enghreifftiau: Cyflawnodd Powys Asesiad wrth adolygu ei wasanaethau Cefnogi Pobl – mae'r rhain yn cynorthwyo pobl i gynnal byw'n annibynnol. Amlygodd yr Asesiad anghenion pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl, pobl ag anableddau dysgu a phobl hŷn. O ganlyniad, gwellodd y Cyngor ofal cartref, lleihau'r angen i bobl fynd i ofal preswyl, a lleihau presenoldeb mewn meddygfeydd.

Adroddodd Powys fod Asesiad o wasanaethau ieuenctid wedi bodi nad oedd gan bobl ifanc anabl fynediad digonol at gynlluniau gweithgareddau gwyliau, ac fe ddeliwyd â hyn trwy gefnogaeth gweithiwr ieuenctid atodol.

Anabledd, anawsterau dysgu, oed, pobl ifanc, 2013

Dywedodd **Cyngor Powys** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig wedi ei gyflawni mewn partneriaeth ag aelodau eraill Fforwm Cam-drin Domestig Powys. Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â llawer o asiantaethau lleol, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Heddlu, Cymorth i Ferched a'r Gwasanaeth Prawf, i daclo camdrin domestig. Ymgymerodd y fforwm ag ymgyrch bosteri 'Home Sweet Home - or is it?' i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a hybu'r gwasanaethau sydd ar gael ym Mhowys. Ni chlustnodwyd unrhyw gynulleidfa darged benodol i'r ymgyrch, gan y cytunwyd fod ymwybyddiaeth o gam-drin domestig yn isel yn gyffredinol. Mae'r ymgyrch yn cael ei gwerthuso ar hyn o bryd, ond mae'r canlyniadau cyntaf yn dangos bod adrodd ar gam-drin domestig wedi cynyddu yn y mis yn dilyn dechrau'r ymgyrch a'i fod wedi cynyddu bob mis ar gyfartaledd ers hynny. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu ymgyrchoedd sydd wedi'u targedu'n fwy, gan ganolbwyntio ar grwpiau penodol.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Adroddodd **Cyngor Ynys Môn** fod gan y Bwrdd Llywio Prosiect ar gyfer adolygu darpariaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Asesiadau fel eitem agenda parhaol. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu gyda gweithwyr achos ac mae wedi cyflogi gwasanaeth eirioli annibynnol i gynorthwyo gydag ymgysylltu effeithiol. Bydd mewnbwn o hyn yn hysbysu ystyriaeth o grwpiau gwarchodedig ym mhenderfyniadau y Bwrdd Prosiect.

Enghraifft: Ymchwiliodd Ynys Môn i ddewisiadau ar gyfer darpariaeth toiledau cyhoeddus yn y dyfodol. Dywedodd y Cyngor fod yr Asesiad wedi amlygu pwysigrwydd ymgysylltu a chynnwys grwpiau gwarchodedig. Un canlyniad oedd Cynllun Grant Toiledau Cymunedol a gefnogir gan dros 35 o fusnesau ar hyn o bryd.

2013

Dywedodd **Cyngor Sir Ynys Môn** fod ei waith ar droseddau casineb yn adlewyrchu ei ymroddiad i leihau anghydraddoldeb ym maes diogelwch personol, gydag adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddu'n cynyddu. Dywedodd y Cyngor wrthym fod demograffeg yr ardal yn golygu bod achosion o droseddau casineb yn gysylltiedig yn gyffredinol â phobl hŷn.

Mae Swyddog Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol sy'n gweithio ar draws Conwy, Gwynedd a Sir Fôn wedi bod yn llunio cynllun gweithredu ar droseddau casineb ar gyfer y gymdogaeth. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru, gyda'r Heddlu yn arwain y gwaith hwn.

Fel rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi edrych ar enghreifftiau o arfer orau canolfannau adrodd trydydd parti fel ffordd i daclo'r diffyg adrodd y gwelir ar yr ynys.

Oed, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Sir Ynys Môn** fod ei waith ar gam-drin domestig wedi canolbwyntio ar gynyddu adrodd o achosion cam-drin domestig fel y gellir cymryd camau i gefnogi teuluoedd a'i atal rhag digwydd eto. Rhwng mis Mawrth 2012 a mis Mawrth 2013 cafodd 951 o helyntion a throseddau cam-drin domestig eu sôn amdanynt. Gwelodd yr un cyfnod, y flwyddyn wedyn, gynnydd yn y ffigurau hyn i gyfanswm o 1090, sy'n cynrychioli 13% o gynnydd mewn adrodd.

Mae'r cynnydd hwn yn cydberthyn â data Cynhadledd Asesu Risg AmlAsiantaeth leol a welodd 108 o achosion yn cael eu trafod rhwng mis Chwefror 2012 a mis Mawrth 2013. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 140 o achosion y trafodwyd arnynt yn yr un cyfnod y flwyddyn ddilynol, gan arddangos cynnydd o 23%.

MARAC, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Roedd **Cyngor Sir Ynys Môn** wedi ceisio mynd i'r afael â'r lleihad mewn defnydd o brydau ysgol am ddim trwy gynnig ymagwedd 'dim arian' i dalu am giniawau ysgol ileihau'r stigma i blant difreintiedig o beidio â thalu gerbron y plant eraill.

Cymdeithasol-economaidd, plant a phobl ifanc, ysgolion, NatCen

Roedd **Cyngor Sir Ynys Môn** wedi datblygu amcan i leihau anghydraddoldebau perthnasol i 'Gynrychiolaeth a Llais y Bobl'. Fel rhan o raglen adfywiogi ddemocrataidd y Cyngor, defnyddiwyd dulliau amrywiol i godi proffil etholiad lleol Ynys Môn yn 2013, gan gynnwys: Cyfres o hysbysebion a datganiadau i'r wasg a ymddangosodd yn y wasg leol ac ar wefan y Cyngor, yn ogystal ag ar y Gweplyfr; ymgyrch 'Drydar' yn targedu grwpiau o ferched a phobl ifainc a gofyn iddynt rannu'r gair; Tîm Gwasanaethau Etholiadol a oedd ar gael i gynnig gwybodaeth i ymgeiswyr posibl – yn sioe Môn a sioe deithiol mewn pum lleoliad gwahanol ar draws yr ynys; Erthygl yn hyrwyddo adfywiogi democrataidd yn "Dan Do Môn" – newyddlen i'r sector gwirfoddol. Trwy'r gwaith hwn y gobaith oedd denu grwpiau heb lawer o gynrychiolaeth i ymwneud mwy â'r prosesau etholiadol.

traws, NatCen

Dywedodd **Cyngor Torfaen** fod angen Ffurflen Asesiad Effaith Polisi ar gyfer holl bapurau'r Cyngor a bod Asesiad wedi arwain at ymgysylltu cynyddol gyda grwpiau gwarchodedig. Adroddodd Torfaen fod proses y gyllideb yn ystyried yr effaith ar wahanol grwpiau. Roedd wedi amlygu bylchau yng ngwybodaeth yr awdurdod ac arwain at well monitro o ddarpariaeth gwasanaethau.

Enghraifft: Cyflawnodd y Cyngor Asesiad wrth adolygu'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol. Roedd hyn yn galluogi sefydlu camau i leihau effaith negyddol. O ganlyniad, pan fydd y Cyngor yn lleihau ei ddarpariaeth uniongyrchol ei hun, gellir lliniaru hyn trwy hybu datblygiad cymunedol cysylltiedig.

lliniariad, 2013

Dywedodd **Cyngor Torfaen** wrthym mai ei waith mwyaf arwyddocaol ar gam-drin domestig yw ei 'Pan Gwent Domestic Abuse Pathfinder Project'. Mae hyn yn hwyluso gwasanaethau cyfannol sy'n bodloni anghenion, lleihau risg ac yn galluogi i achosion sy'n ymwneud â thramgwyddwyr a'r rheiny sy'n dioddef camdriniaeth gael eu rheoli'n effeithiol.

Cafodd arolwg ymrwymiad ei gynnal gyda phobl sydd wedi dioddef camdrin domestig, gyda thramgwyddwyr, dinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Mae'r arolwg yn cynnwys 20 o astudiaethau achos manwl ledled Gwent. Mae'n amlinellu'r hanesion, profiadau a'r rhwystrau a wynebodd pobl ynghyd â'u cyngor i eraill yn yr un sefyllfa.

Hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Dywedodd **Cyngor Torfaen** wrthym fod ei waith ar droseddau casineb wedi canolbwyntio ar weithio gyda phobl ifanc, i fynd i'r afael â bwlio a allai waethygu'n droseddau casineb yn y dyfodol.

Canolbwyntiodd y Gweithgor Troseddau Casineb ar y Strategaeth Gwrth-Fwlio a chofnodi methodoleg. Cafodd y strategaeth ei ailwampio, a bellach, mae'n ymgorffori polisi enghreifftiol i ysgolion a chanllaw ar gofnodi ac adrodd ar bob achos o fwlio. Mae trafodaethau yn mynd yn eu blaen ynghylch adrodd yn electronig ar helyntion o fwlio a chaiff system newydd ei rhoi ar waith cyn hir.

Cafodd sesiynau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb eu cynnal ar gyfer staff y llinell flaen. Mae'r sesiynau yn amlygu sut y gall pobl sy'n agored i niwed ddioddef troseddau casineb ac mae'n adlewyrchu problemau penodol gan gynnwys erledigaeth o'r henoed, 'Troseddau Cyfeillio' a throseddau yn seiliedig ar hunaniaeth. Mae troseddau casineb bellach wedi'i ymgorffori ym maes hyfforddi diogelwch i oedolion sy'n agored i niwed.

Mae saith Canolfan Adrodd Trydydd Parti yn y fwrdeistref. Cafodd y rhain eu cynllunio i wneud adrodd yn haws gan eu bod wedi'u lleoli mewn llefydd diogel a niwtral lle mae opsiwn i adrodd yn y safle, neuorffen y gwaith papur gartref.

Pobl hŷn, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Cyngor Wrecsam** wrthym fod ei waith ar gam-drin domestig yn seiliedig ar gydweithio cadarn â phartneriaid.

Mae'r Cyngor wedi rhedeg ymgyrchoedd a mentrau i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a chyflenwi hyfforddiant sylfaenol i grwpiau amlasiantaeth ar godi ymwybyddiaeth. Mae ymgynghori rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth yn sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi yn bodloni anghenion pobl sy'n dioddef cam-drin domestig. Yn sgil hanes am ddiffyg gwybodaeth a gwasanaethau'n ymwneud â thrais plant yn erbyn eu rhieni, cafodd 14 o ymarferwyr eu hyfforddi.

Ymgymerodd MARAC Wrecsam â phroses Hunanasesu/Sicrhau Ansawdd CAADA ym mis Tachwedd 2013 ac mae Cynllun Gweithredu yn cael ei lunio ar hyn o bryd.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod yr 11 o safonau gofynnol y Prosiect WG 10K Safer Lives yn cael eu bodloni neu'u rhagori.

Codi ymwybyddiaeth, plant a phobl ifanc, hawliau dynol, trais yn erbyn menywod, 2014

Dywedodd **Cyngor Wrecsa**m wrthym fod ei waith ar droseddau casineb wedi canolbwyntio ar ddatblygu 41 o Ganolfannau Adrodd Trydydd Parti (TPRCs) yn y gymuned. Lleolir y rhain mewn gwasanaethau, sy'n cael eu defnyddio gan bobl sy'n fwy tebygol o ddioddef troseddau casineb, megis swyddfeydd tai rhanbarth y Cyngor ac Adrannau Damweiniau ac Argyfyngau. Pan fo'n briodol bydd y Cyngor yn cydlynu cyfarfodydd amlasiantaeth a MARAC.

Mae ymgysylltu â chymunedau sy'n fwy agored i droseddau casineb yn barhaus ac mae'n llywio datblygiad y prosiect. Mae hyfforddiant yn cael ei gyflenwi i staff yn y TPRC i wella dealltwriaeth a rhoi hyder i staff sy'n cefnogi pobl sydd am adrodd. Mae modiwl e-ddysgu i staff y Cyngor yn hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o droseddau casineb.

Yn ystod 2013 cafodd system adrodd ar-lein ei threialu yn swyddfeydd tai rhanbarth y Cyngor. Yn sgil cofnodi data yn well daw'r gallu i nodi tueddiadau a dioddefwyr sy'n cael eu cam-drin dro ar ôl tro. Mae dadansoddi'r data yn ôl ethnigrwydd, oedran a lleoliad daearyddol yn galluogi targedu adnoddau yn fwy effeithiol.

MARAC, ymgysylltiad, gweithlu, hawliau dynol, 2014

Mae **Cyngor Wrecsam** wedi sefydlu Panel Effaith Cydraddoldeb gyda chynrychiolwyr o'r grwpiau gwarchodedig ac aelodau'r Cyngor. Mae hyn yn craffu ac yn cynghori ar effaith cydraddoldeb newidiadau arfaethedig. Mae polisi tai a chymhorthdal cludiant ysgol wedi ei adolygu.

Enghraifft: Nodwyd bylchau yn y strategaeth Cydlyniad Cymunol, ac mae nawr yn cynnwys mewnbwn gan bobl ifanc a phobl hŷn.

Gweithlu, halwiau dynol, 2013

Roedd **Cyngor Wrecsam** yn dweud eu bod wedi ceisio yn benodol 'dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth' mewn perthynas â throseddau casineb ar sail hil. Nodwyd bod 42 adroddiad am droseddau casineb yn ystod 2011-12, y mwyafrif ohonynt ar sail hil. Roedd y Cyngor wedi darparu hyfforddiant i Weithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymdeithasol ysgolion a thîm cefnogi myfyriwr Prifysgol Glyndŵr. Trwy gynyddu'r llwybrau i adrodd am droseddau casineb i 41 ar draws y sir y gobaith oedd y gellid adnabod troseddau ar sail hil a mynd i'r afael â hwy yn gyflymach.Nodwyd bod y 'Street Scene', menter arall a oedd yn rhan o'r un amcan i leihau troseddau casineb, wedi dileu 13 enghraifft o graffiti hiliol ar yr un diwrnod yr adroddwyd amdanynt.

Hil, plant a phobl ifanc, hawliau dynol, NatCen

Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABM)** wedi cychwyn grŵp rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o bob grŵp gwarchodedig, ac eithrio trawsrywiol. Mae ABM yn teimlo'n bositif am fuddiannau'r Ddyletswydd Ymgysylltu. Mae ymgysylltu wedi ei alluogi i uno defnyddwyr gwasanaethau a staff meddygol uwch. Cynhaliodd ABM nifer helaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu yn amrywio o gannoedd o bobl i gyfweliadau unigol, er enghraifft, gyda phobl fyddar. Gwnaeth ddefnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol i gyrraedd mamau newydd a phobl ifanc. Mynychodd y Cyngor Iechyd Cymunedol pob digwyddiad ymgysylltu.

Mynegodd pobl ifanc rwystredigaeth ynglŷn â'r ffaith yr ymgynghorwyd â nhw ar faterion ieuenctid yn unig a chroesawyd y cyfle i ddylanwadu ar ddarpariaeth iechyd. Roedd menywod beichiog eisiau cael delio â'u holl anghenion meddygol mewn un ysbyty yn hytrach na gwahanol apwyntiadau mewn gwahanol leoliadau.

Mae newidiadau a nodwyd gan ABM yn cynnwys maint y newidiadau arfaethedig, sicrhau fod gan ddefnyddwyr gwasanaethau gyfle i ymgysylltu gyda staff meddygol, a chred defnyddwyr gwasanaethau fod y broses ad-drefnu yn ddim mwy na mater o arbed arian.

Adroddodd ABM y bydd papur y Bwrdd ar ad-drefnu yn arddangos sut y bodlonodd ABM ei rwymedigaethau cyfreithiol dan y Ddyletswydd Ymgysylltu. Nododd ABM fod y Ddyletswydd wedi arwain at gysylltiad llawer cyfoethocach gyda'i gymuned nag y byddai wedi ei sicrhau fel arall.

Traws, anabledd, plant a phobl ifanc, beichiogrwydd, gweithlu, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** wrthym fod ei waith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn cynnwys menter gan Wasanaeth Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd i wneud triniaeth ddeintyddol yn fwy hygyrch i gleifion sy'n agored i niwed.

Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol wedi sefydlu gwasanaeth llonyddiad ymwybodol sydd nid yn unig yn gweithio gyda Gwasanaeth Deintyddol yr Ysbyty ond hefyd yn ymestyn ystod y triniaethau deintyddol sydd ar gael i bobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl ag anabledd dysgu. Mae arbenigwr bellach yn gallu darparu llonyddiad ymwybodol i bobl sy'n agored i niwed sydd mewn nifer arwyddocaol o achosion wedi osgoi'r angen i gyfeirio at driniaeth yn defnyddio anaesthesia cyffredinol.

Roedd y gwasanaeth hwn yn flaenorol dim ond ar gael mewn ysbyty. Mae'n galluogi cleifion i ymlacio a chydweithredu ar gyfer triniaeth, er eu bod yn aros ar ddihun. Gall cleifion gael mynediad at glinigau sy'n agos i'w cartrefi ac sy'n diwallu eu hanghenion heb orfod mynd i'r ysbyty. Mae hyn yn allweddol i wella mynediad at wasanaethau deintyddol arbenigol ac iechyd deintyddol y gymuned. Mae'r prosiect hwn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen mynediad at wasanaethau deintyddol brys heb eu trefnu ar y grwpiau hyn. Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu ac ehangu'r gwasanaeth hwn.

Cymdeithasol-economaidd, 2014

Gweithiodd **Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys** mewn partneriaeth gyda Chyngor Powys i weithredu'r Ddyletswydd Benodol ar Ymgysylltu.Cyflawnodd ymgyrch ar y cyd i gyrraedd yr holl grwpiau gwarchodedig ac fe ddywedodd y bu hyn yn llwyddiannus. Roedd y CHC a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys yn cymryd rhan yn yr ymgyrch.

Canfu Powys fod yna wahaniaethau mewn gofynion gan grwpiau gwahanol. Er enghraifft, roedd pobl Fyddar yn poeni'n bennaf am addasiadau rhesymol i alluogi mynediad at wasanaethau, tra bod y rhai oedd yn profi camdriniaeth ddomestig yn pryderu mwy am ddiogelwch. Fodd bynnag, cododd rhai themâu cyffredinol o'r ymgysylltu, gan gynnwys mynediad at wasanaethau a mynediad corfforol, trafnidiaeth, ac arwahanrwydd.

Adroddodd Powys fod y themâu cyffredinol hyn hefyd yn codi yn ystod ymgysylltu ar ad-drefnu gwasanaethau ac felly y byddai'n cael ei adlewyrchu mewn papurau i'r Bwrdd ar ad-drefnu gwasanaethau.

Mae safbwynt Powys ar ad-drefnu yn wahanol i'r Byrddau Iechyd eraill gan y darperir gofal eilaidd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG eraill. Mae hyn yn golygu fod Powys, yn ogystal ag ymgysylltu ar unrhyw gynnig lleol i ad-drefnu gwasanaethau, hefyd yn ymwneud â chynigion ymgysylltu ad-drefnu'r sefydliadau hyn.

Traws, anabledd, 2013

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Addysgu Lleol Powys** wrthym fod ei waith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned leol i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu grwpiau gwarchodedig gwahanol wrth gael mynediad at ei wasanaethau.

Amlygodd y broses ymgysylltu rwystrau i rai grwpiau wrth geisio mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, gweithiodd y Bwrdd i ddatblygu hygyrchedd ei wefan a'i gyhoeddiadau, gan ystyried anghenion cymuned ddwyieithog yn ogystal â sicrhau bod fersiynau dogfennau hawdd eu deall ar gael.

Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd hyfforddiant i staff i'w helpu i ddeall anghenion penodol grwpiau gwahanol, gyda phwyslais arbennig ar grwpiau gwarchodedig. Cafodd y staff hyfforddiant agweddau ac ymwybyddiaeth yn ogystal â mynediad at becyn hyfforddi e-ddysgu Canolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Fy Nhrin yn Deg'. I sicrhau bod deall pwysigrwydd gwahaniaeth yn cael ei brif ffrydio i ddiwylliant y sefydliad, caiff yr hyfforddiant staff hwn ei integreiddio i mewn i'r rhaglen hyfforddi staff hanfodol.

Gwella mynediad, traws, iaith Gymraeg, 2014

Cydlynodd **Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan** ymgysylltu gyda Byrddau Iechyd eraill yn Ne Cymru. Roedd Rhaglen Ymgysylltu De Cymru yn cynnwys nodweddion gwarchodedig megis oed, rhyw, iechyd a lles a bydd yr allbwn yn cael ei fwydo i mewn i asesiad effaith cydraddoldeb.Yn ogystal, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ymgysylltu cymunedol i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach na'r rhai a fyddai'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus o bosibl. Hwyluswyd hyn gan ei Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen.

Dywedodd y bwrdd Iechyd nad oedd wedi nodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng grwpiau. Adroddodd fod pobl, yn gyffredinol, yn derbyn yr achos dros newid. Nododd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan mai materion craidd i ddefnyddwyr gwasanaethau oedd gallu Gofal Sylfaenol a gwasanaethau cymunedol i gyflawni mwy o ofal tu allan i ysbytai, diogelwch cleifion, cynaladwyedd gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth da er mwyn i gleifion allu cyrraedd gwasanaethau yn ddidrafferth.

Dywed y Bwrdd Iechyd y bydd yn cynnwys adroddiadau ar asesiad effaith cydraddoldeb a barnau grwpiau gwarchodedig gyda phapurau'r Bwrdd ar ad-drefnu.

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, gwella mynediad, 2013

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** wrthym fod ei waith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd wedi cynnwys menter i ddileu rhwystrau i gleifion ag anawsterau dysgu drwy benodi Nyrsys Cydgysylltu. Mae'r nyrsys hyn yn darparu cymorth penodol i wella profiadau a deilliannau i gleifion.

Mae prosiect pellach yn anelu at wella hygyrchedd apwyntiadau mewn meddygfeydd meddygon teulu. Lansiodd y Bwrdd Iechyd gynllun cyntaf o'i fath yng Nghymru sef 'A is for Access '. Mae hwn yn cynnwys 5 safon a gytunwyd arnynt yn lleol i alluogi mynediad at apwyntiadau i wasanaethau a ddarperir gan feddygfeydd ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r cynllun yn gysylltiedig ag oriau agor cynnar; mynediad at wasanaethau yn ystod amser cinio; apwyntiadau ar gael tan 5.50pm neu hwyrach; mynediad uniongyrchol ar y ffôn i aelod o staff rhwng 8.00am a 6.30pm a chleifion yn gallu neilltuo apwyntiadau pan fyddan nhw'n galw'r feddygfa yn hytrach na gorfod galw'r eilwaith neu drefnu apwyntiad arlein. Mae'r mesurau hyn yn golygu bod mwy o gyfleoedd gan gleifion i gael mynediad at gyngor a thriniaeth feddygol nad oes brys yn eu cylch. Bydd hyn yn atal cyflyrau iechyd rhag gwaethygu a dylai gostwng y tebygolrwydd o angen mynediad at wasanaethau iechyd brys.

Pan lansiwyd y cynllun ym mis Ionawr 2012 roedd 25 o bractisiau a oedd wedi cyrraedd y 5 safon posibl. O ganlyniad i waith pellach dros y 12 mis diwethaf mae 49 o bractisiau wedi cyrraedd y 5 safon. Mae hyn yn gynnydd o 49%.

Anabledd, gwella mynediad, hawliau dynol, 2014

Sefydlodd **Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan** grŵp gweithredu ar fater trais ar yr aelwyd. Mae'r grŵp wedi darparu mentrau i wella canlyniadau i bobl sydd yn dioddef trais ar yr aelwyd, waeth beth fo'u rhyw. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys sicrhau bod bydwragedd wedi eu hyfforddi i ofyn cwestiynau cyffredinol parthed trais ar yr aelwyd ac ymestyn y cwestiynau cyffredinol i bawb, waeth beth fo'u rhyw.

Gwella mynediad, hawliau dynol, NatCen

Cyflawnodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** ymgysylltu targedig gyda'r holl grwpiau gwarchodedig. Mae gan Betsi Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb Rhanddeiliaid ac fe graffodd y Grŵp hwn ar y broses ymgysylltu. Defnyddiwyd eiriolwyr i ymgysylltu gyda rhai grwpiau gwarchodedig ac roedd y CHC yn bartner ymgysylltu allweddol.

Dywedodd Betsi fod y rhaglen ad-drefnu wedi bod yn seiliedig ar ymgysylltu. Mynegodd defnyddwyr gwasanaethau safbwyntiau positif ar y cynigion i ganolbwyntio ar ddeilliannau iechyd a gwella ansawdd gwasanaethau. Ystyrir fod mynediad at wasanaethau, yn cynnwys lleoliad a theithio, yn heriau sylweddol.

Mae nifer o grwpiau gwarchodedig yn gwneud defnydd mwy o wasanaethau iechyd na chyfartaledd y boblogaeth, er enghraifft, pobl hŷn, menywod, pobl gydag anawsterau dysgu neu gyflyrau iechyd meddwl. Efallai bod gan y grwpiau hyn lai o fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac arian, sy'n gwaethygu'r rhwystrau sy'n deillio o unrhyw ostyngiad yn y nifer o leoliadau i ddarparu gwasanaethau.

Dywed Betsi fod y Ddyletswydd Benodol ar Ymgysylltu wedi sicrhau buddiannau i'r Bwrdd, i gyflogeion ac i'r cyhoedd. Adrodda Betsi fod ymgysylltu wedi amlygu bylchau yn y cynlluniau ad-drefnu ac felly bod cynigion i'r Bwrdd wedi eu newid o ganlyniad. Dywedodd Betsi wrthym fod papurau'r Bwrdd yn nodi sut y gellid lliniaru effeithiau andwyol addrefnu ar grwpiau penodol ac mae hyn wedi hysbysu penderfyniadau'r Bwrdd.

Traws, anabledd, hawliau dynol, 2013

Mae **Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr** wedi datblygu 'ymagwedd ar sail hawliau dynol mewn meysydd clinigol gan gynnwys datblygu Cit Offer Hawliau Dynol i'w ddefnyddio ar bob ward, dan yr enw "Putting Human Rights at the Heart of Nutrition and Hydration"; cynlluniwyd hwn i cynorthwyo staff clinigol i gwrdd yn well ag anghenion pobl oedrannus ar wardiau ysbytai gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

oed, 2013

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** wrthym fod ei waith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd wedi cynnwys gwthio amrywiaeth o fentrau yn eu blaen i alluogi bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pobl â nam ar eu synhwyrau yn cael eu diwallu wrth gael mynediad at wasanaethau.

Un enghraifft yw'r Grŵp Llywio Amlddisgyblaeth a sefydlwyd i oruchwylio'r gwaith hwn. Caiff meysydd blaenoriaeth wybodaeth gan Grŵp Cynghori ar Golli Cynneddf y Synhwyrau. Mae asesiad llinell sylfaen wedi ei gynnal o ran cydymffurfio â Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod enghreifftiau o arfer dda wedi ei gydnabod gan gynnwys Rhwydwaith Iechyd Meddwl a Byddardod Gogledd Cymru.

Dyma'r datblygiad cyntaf yng Nghymru i fynd i'r afael â mynediad at ofal iechyd meddwl i bobl F/byddar. Prif nod y Rhwydwaith yw gwella mynediad at ofal iechyd meddwl drwy ddarparu pwynt cyswllt sengl hygyrch i ddefnyddwyr a darparu gwasanaethau iechyd meddwl diwylliannol sensitif i'r gymuned F/byddar.

Mae'r Rhwydwaith yn gweithio gydag unigolion sy'n profi graddau amrywiol o nam ar eu clyw ond yn cydnabod bod pobl F/byddar a defnyddwyr BSL yn dod ar draws anawsterau mawr wrth gael mynediad at wasanaethau. Mae'r rhwydwaith yn ymgymryd â chydweithio agos â'r gymuned F/byddar, Gofal sylfaenol, Gwasanaethau Arbenigol yn Lloegr o ran Gwasanaethau Gofal Iechyd Pobl Fyddar, Timau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Sector Gwirfoddol.

Ers mis Mehefin 2011 bu 20 o achosion lle mae asesu a chynghori wedi digwydd yn sgil ymyriadau, ynghyd â chwnsela gan y Rhwydwaith, cyfeiriadau arwyddbost at asiantaethau eraill (gwasanaethau alcohol, Timau yn ymwneud â Namau ar Synhwyrau) ac atgyfeiriadau ag arian i Sign Health.

Gwella mynediad, anabledd, iechyd meddwl, nam ar y clyw, hawliau dynol, 2014

Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** wedi cwblhau dadansoddiad o'r gwahaniaethau mewn cyfartaledd cyflog rhwng aelodau staff gwrywaidd a benywaidd. Maent bellach wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau dros y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y sefydliad ac i ddatblygu gweithredoedd i fynd i'r afael â'r mater. Er enghraifft, maent yn cysgodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda phrosiect WAVE ym Mhrifysgol Caerdydd sydd yn edrych ar y ffactorau sy'n arwain at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

Cyflog cyfartal, hawliau dynol, NatCen

Ymgysylltodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** gyda phobl â'r holl nodweddion gwarchodedig a gydag ystod eang o sefydliadau cydraddoldeb. Chwaraeodd y bartneriaeth gyda Chyngor Bro Morgannwg rôl allweddol mewn cyflawni'r lefel hon o ymgysylltu. Mae'r CHC yn aelod o'r Grŵp Llywio Rhanddeiliaid Cydraddoldeb.

Dywedodd Caerdydd a'r Fro fod yr ymgysylltu gyda phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn arbennig o lwyddiannus oherwydd eu gwaith gyda Stonewall a Transgender Cymru. Roedd yna wahaniaethau rhwng y grwpiau, ond roedd trin pobl ag urddas a pharch yn flaenoriaeth ar draws y grwpiau gwarchodedig. Cododd hygyrchedd yr amgylchedd corfforol ac argaeledd gwybodaeth ar wahanol fformatau fel materion allweddol. Adroddwyd y byddai papurau'r Bwrdd ar ad-drefnu yn adlewyrchu barnau'r grwpiau gwarchodedig.

Traws, hawliau dynol, gwella mynediad, 2013

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** wrthym fod ei waith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd i bobl â chyflyrau iechyd meddwl wedi cynnwys prosiect yn seiliedig ar fodel o Fwrdd Iechyd yn Lloegr. Sylfaen y fenter oedd recriwtio gweithwyr cymorth a oedd yn gyfoedion. Mae'r Comisiwn Sgitsoffrenia yn argymell cyflogi pobl a chanddynt brofiad o fyw â chyflyrau iechyd meddwl. Prif bwrpas y rôl oedd helpu eraill â chyflyrau iechyd meddwl i wella drwy ddefnyddio eu profiadau eu hunain.

Defnyddiodd y Bwrdd Iechyd ofyniadau galwedigaethol i recriwtio gweithwyr cymorth yn benodol a oedd yn gyfoedion. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod yr adbordd o ran y prosiect wedi bod yn gadarnhaol. Cafodd y cleifion gymorth a oedd wedi ei deilwra, ac o ganlyniad, roedden nhw wedi ymlacio'n fwy ac yn barotach i fod yn fwy agored gyda staff ynglŷn â'u cyflwr. Roedden nhw'n teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn eu cefnogi ac roedd deilliannau eu triniaeth yn well yn sgil hynny.

Adroddodd gweithwyr cymorth newydd eu recriwtio a oedd yn gyfoedion fuddion economaidd ynghylch darganfod cyflogaeth a hunan hyder gwell yn ogystal â phrofiadau mwy cadarnhaol yn y gwaith. Roedd y prosiect ei hunan yn gymharol fach gyda dim ond 5 neu 6 mentor, ond yn sgil ei lwyddiant, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ei gyflwyno i feysydd gwasanaeth eraill.

Gwella mynediad, anabledd, hawliau dynol, 2014

Roedd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf** wedi gosod nod tymor hir o wella canlyniadau iechyd i bawb trwy adnabod, coladu a 'gwneud ar gael i bawb y dystiolaeth genedlaethol am anghenion iechyd unigryw ac ystyriaethau eraill mewn perthynas â'r nodwedd(ion) gwarchodedig ar gyfer pob defnyddiwr a aseswyd o'r newydd, a all fod yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl'. Roeddynt yn y broses o osod yr adnodd hwn mewn lle.

traws, hawliau dynol, NatCen

Cyflawnodd **Bwrdd Iechyd Cwm Taf** ymgysylltu helaeth ar wasanaethau iechyd meddwl y llynedd ble cafwyd ymgysylltu sylweddol gyda defnyddwyr gwasanaethau. Cynhaliodd amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu ar ad-drefnu gan wahodd y grwpiau gwarchodedig, ond dywedodd ei bod yn anodd nodi a oedd wedi llwyddo i gynnwys yr holl grwpiau. Roedd y CHC yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ymgysylltu. Nododd Cwm Taf bod diffyg consensws ymysg sefydliadau ac unigolion gyda'r un nodweddion gwarchodedig yn gallu codi.

Nododd y broses ymgysylltu rai materion allweddol. Roedd pryderon y byddai'r canolfannau rhagoriaeth yn golygu y byddai'n rhaid i bobl deithio'n bellach ar gyfer triniaeth. Mynegodd rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â mynediad at wasanaethau, yn arbennig cynigion ar gyfer gwasanaethau dros y ffôn. Dywedodd Cwm Taf fod yr ymgysylltu wedi meithrin ymddiriedaeth gyda defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n rhy fuan i allu dweud a fydd y materion hyn a materion eraill yn codi o'r ymgysylltu yn cael eu hadlewyrchu ym mhapurau'r Bwrdd ar ad-drefnu.

Anabledd, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Cwm Taf** wrthym fod ei waith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn cynnwys prosiect ymchwil i gynyddu nifer yr ysmygwyr sy'n feichiog sydd am fynediad at wasanaethau darfyddiad ac yn eu defnyddio i roi'r gorau i ysmygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn rhanbarth y Bwrdd Iechyd oherwydd yr amddifadedd a'r tlodi eang yno.

Mae'r astudiaeth Modelau i gael Mynediad at Wasanaethau Darfyddiad Ysmygu Mamol (MAMSS) yn defnyddio sgiliau gweithiwyr cymorth mamolaeth sydd wedi'u hyfforddi ym maes darfyddiad ysmygu, ac sy'n cael eu goruchwylio gan fydwragedd. Mae'r gweithiwr cymorth mamolaeth wedi'i integreiddio yn nhîm cymdogaeth y Rhondda, i gymryd atgyfeiriadau gan fydwragedd sy'n cofrestru menywod beichiog gyda'r gwasanaethau bydwreigiaeth ac i gynnig cymorth sydd wedi ei deilwra i'r menywod hyn. Mae deilliannau'r prosiect hwn wedi eu cymharu â'r grŵp gofal arferol yng nghymdogaeth Merthyr Tydfil, sy'n cael ei gyfeirio at Wasanaeth Dim Smygu Cymru.

Soniodd Cwm Taf fod canlyniadau dechreuol prosiect y Rhondda yn gadarnhaol, gyda chyfraddau uwch o atgyfeiriadau gan fydwragedd, a mwy o ysmygwyr beichiog ac ysmygwyr beichiog sydd wedi rhoi'r gorau i ysmygu yn defnyddio'r gwasanaeth o'i gymharu â'r grŵp ymyrraeth arall. Mae trafodaethau ar y gweill i gyflwyno'r rhaglen hon yn fwy eang ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tydfil. Drwy ostwng y nifer o ysmygwyr beichiog, mae'r Bwrdd Iechyd o bosib yn lleihau'r tebygolrwydd o'r grŵp hwn yn ceisio mynediad at ofal brys.

Cymdeithasol-economaidd, beichiogrwydd, gwella mynediad, hawliau dynol, 2014

Roedd ymgysylltu ar draws y grwpiau gwarchodedig yn dipyn o her i **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**. Mae hyn o ganlyniad i natur ledled Cymru'r Ymddiriedolaeth a'r hyn a ddisgrifiodd fel diffyg ymateb gan grwpiau rhanddeiliaid cydraddoldeb. Roedd ymgysylltu yn bennaf gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Darparodd Grŵp Cyswllt Cleifion Canolfan Ganser Felindre gyngor a chefnogaeth ymgysylltu gweithredol.

Adroddodd Felindre mai'r mater allweddol yn codi o'r broses ymgysylltu oedd yr angen i drin pobl ag urddas a pharch. Arweiniodd hyn at fentrau megis ailgynllunio gynau ysbytai.

Parthed y Gwasanaeth Gwaed, dywedodd Felindre wrthym mai mater pwysig yw'r gwaharddiad sy'n atal dynion hoyw neu ddeurywiol rhag rhoi gwaed.Mae hwn yn Bolisi ledled y Deyrnas Unedig. Bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gweithio gyda'r gymuned lesbiaidd, hoyw a deurywiol i godi ymwybyddiaeth o'r mater ac mae staff wedi eu hyfforddi i sicrhau urddas trwy'r broses o roi fel nad yw unrhyw roddwr posibl yn cael ei nodi'n gyhoeddus na gwahaniaethu yn ei erbyn.

Hawliau dynol, cyfeiriadedd rhywiol, 2013

Dywedodd **Ymddiriedolaeth GIG Felindre** wrthym fod ei gwaith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd wedi cynnwys datblygu gwybodaeth sain. Yn wreiddiol ystyriodd yr Ymddiriedolaeth ddarparu gwybodaeth am ei gwasanaethau mewn Braille er mwyn galluogi mynediad at wybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth dall. Fodd bynnag, yn sgil ymgynghori ac ymgysylltu pellach sylweddolodd yr Ymddiriedolaeth nad defnyddwyr gwasanaeth dall yn unig fyddai'n elwa gan wybodaeth sain. Byddai hefyd yn helpu defnyddwyr gwasanaeth ag anawsterau dysgu a'r bobl hynny nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio cryn dipyn o adnoddau ar wella profiadau cyffredinol cleifion. Caiff adroddiadau misol ar Brofiadau Cleifion a diweddariadau ar y nod cydraddoldeb eu cyflwyno gerbron y Bwrdd bob tri mis. O fewn yr Ymddiriedolaeth, mae'r Grŵp Urddas Gofalwyr a Chleifion yn ymateb i bryderon a godir gan staff, cleifion, gofalwyr ac ymwelwyr ynglŷn ag urddas. Fel tîm amlddisgyblaeth, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i nodi atebion. Enillodd y tîm hwn Wobr y Nursing Times yn 2013 am Hyrwyddo Urddas Cleifion. Drwy weithredu ar bryderon a godwyd drwy'r fforwm hwn mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella hygyrchedd ei gwasanaethau.

Gwella mynediad, anabledd, nam ar y clyw, nam ar y golwg, Saesneg fel iaith ychwanegol, hawliau dynol, 2014

Mae **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**, er enghraifft, yn cynnig hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth dros ddau ddiwrnod ac yn canolbwyntio ar gysylltu egwyddorion cydraddoldeb a deddfwriaeth i swyddogaethau unigol y rhai hynny sydd yn bresennol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd bod yr effaith yn gynnil ond yn adnabyddadwy; mae'r staff yn mynd at yr hyfforddwraig ac yn dweud 'Rown i'n meddwl y byddai [yr hyfforddiant] yn ddiflas iawn ond mewn gwirionedd mae'n ddiddorol iawn; rwyf wedi dysgu rhywbeth na wyddwn amdano' (W.S.).Felly roedd tystiolaeth nid yn unig bod gwell cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ond bod ei ansawdd a'i ddefnyddioldeb yn gwella hefyd.

Anabledd, gweithlu, NatCen

Dywedodd **Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** wrthym fod ei gwaith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd wedi cael ei gynorthwyo gan ddata a gasglwyd gan ymarferion ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r rhain wedi nodi rhwystrau i grwpiau sy'n agored i niwed a grwpiau anodd eu cyrraedd wrth geisio mynediad at ei gwasanaethau. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys pobl sy'n F/fyddar neu mae nam ar eu clyw, pobl ag anableddau dysgu, cymunedau lle nad Saesneg yw'r iaith gyntaf, pobl hŷn a'r rheiny sydd wedi colli cynneddf y synhwyrau.

Cafodd Cardiau Gwybodaeth Feddygol eu datblygu i wella profiad cleifion sy'n wynebu rhwystrau rhag cyfathrebu'n effeithiol. Mae'r garden yn dal gwybodaeth bersonol, gan gynnwys y dull cyfathrebu sy'n well ganddyn nhw a hanes meddygol. Mae tua 1500 o'r rhain wedi eu dosbarthu ar draws Cymru i'r gymuned F/byddar. Yn sgil llwyddiant y garden hon, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau gwaith ar ddatblygu aps, megis canllaw cyfathrebu cyn ymweld ag ysbyty a fersiwn ddigidol o'r garden gwybodaeth feddygol.

Cafodd canllaw darluniol, ar gyfathrebu cyn ymweld ag ysbyty, a luniwyd gan Ymddiriedolaeth Ambiwlans Llundain ar gyfer y Gemau Olympaidd ei fabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth. Gyda chyfieithwyr yn amhosibl eu cael yn ystod argyfwng, mae'r canllaw yn helpu cleifion i gyfathrebu. Mae hyn yn galluogi cyflenwad mwy effeithiol o driniaeth. Cafodd canllaw darluniol Ymddiriedolaeth Ambiwlans Llundain ei ddiwygio yn sgil ymgynghori, i'w wneud yn fwy perthnasol i Gymru. Mae gan bob parafeddyg bellach gopi o'r canllaw. Cafodd ei groesawu, ac mae ceisiadau wedi'u cael o Fyrddau Iechyd a meddygfeydd meddygon teulu.

Gwella mynediad, anabledd, Saesneg fel iaith ychwanegol, hawliau dynol, 2014

Ymgysylltodd **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru** gyda grwpiau o bobl ar draws pob nodwedd warchodedig. Cododd gwahanol anghenion o'r ymgysylltu hwn. Er enghraifft, mater allweddol i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yw cydnabyddiaeth o bartneriaid a chael eu trin ag urddas. Ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, y materion i'w hystyried yw iaith a diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau.

Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth gyda detholiad o sefydliadau partner, gan gynnwys CHCs, i gynyddu lefelau ymgysylltu. Mae'r canlyniadau o'r ymgysylltu yn cynnwys canllaw darluniadol cyn yr ysbyty a gwasanaeth neges testun argyfwng ar gyfer y Byddar, trwm eu clyw a phobl â nam ar eu lleferydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i bryderon pobl ag anabledd dysgu trwy gynhyrchu canllaw i ffonio 999 ac arweiniad ar sut i gynnal sgwrs â'r gweithredwr.

Cyfeiriadedd rhywiol, hawliau dynol, hil, ceiswyr lloches, ffoaduriaid, 2013

Mae gwaith **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth testun i atgoffa pobl o'u hapwyntiadau sydd wedi'i anelu at ostwng apwyntiadau cleifion allanol sydd heb eu mynychu, ac adnoddau sydd wedi'u gwastraffu. Mae adborth gan Grŵp Gweithredu Safonau Colli Cynneddf y Synhwyrau Bwrdd Iechyd yr Ysbyty yn dangos y bydd hyn yn arbennig o fanteisiol i bobl sy'n defnyddio gwasanaeth testun fel cynhorthwy i gyfathrebu. Mae cyfleuster gwasanaeth testun wedi'i gyflwyno hefyd i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i godi pryderon, gan helpu i wella profiadau a gwasanaethau i gleifion.

Mae enillydd Gwobr Dinasyddion wrth wraidd Ailgynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth, prosiect arloesol gan Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, wedi gwella arwyddion, gan gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r cyhoedd â sgiliau llythrennedd isel a/neu amrywiaeth o anableddau i ddarganfod eu ffordd o amgylch safle'r ysbyty. Gan weithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaeth (yn enwedig oedolion ag anableddau dysgu), staff a'r cyngor iechyd cymunedol lleol, datblygodd Bwrdd Iechyd yr Ysbyty arwyddion sy'n fwy hygyrch gan ddefnyddio symbolau a dewision lliwiau sy'n hawdd eu hadnabod. Mae adborth cadarnhaol gan gleifion ac ymwelwyr wedi ysgogi cyflwyno'r fenter hon ar draws prif safleoedd Bwrdd Iechyd.

Cafodd nifer o wardiau eu gwella drwy welliannau a oedd yn syml ac yn effeithiol o ran cost, gan wella cyfeiriadaedd ac awgrymiadau gweledol ar gyfer cleifion dementia, yn arbennig yr Uned Arennol newydd yn Llwynhelyg ac Uned Adferiad Mynydd Mawr yn Ysbyty Tywysog Philip. Yn unol ag ymchwil yn dangos effaith positif awgrymiadau gweledol a lliwiau ar bobl â dementia, cafodd drysau toiledau cleifion eu peintio'n felyn a defnyddiwyd arwydd symbol i ddynodi'r ystafell.

Roedd y Bwrdd yn gwerthfawrogi'r profiad o weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddechrau gwelliannau.

Gwella mynediad, anabledd, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Bwrdd Iechyd Hywel Dda** fod y Ddyletswydd Benodol ar Ymgysylltu wedi helpu yn y broses ad-drefnu. Soniodd fod gan y ddyletswydd gefnogaeth gref gan arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd.Cynhaliwyd detholiad o ddigwyddiadau gyda phobl ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys cyfarfodydd un i un gydag aelodau'r Bwrdd.

Roedd pobl anabl yn arbennig yn pryderu am y pellteroedd arfaethedig y byddai'n rhaid iddynt deithio i gael mynediad at wasanaethau. Roedd gan y gwahanol ardaloedd o fewn Hywel Dda bryderon penodol, er enghraifft, darpariaeth gofal arbennig i fabanod yn Hwlffordd. Roedd rhai o'r farn mai unig ddiben yr ad-drefnu oedd arbed arian ac israddio gwasanaethau.

Ar y cyfan, dywedodd Hywel Dda ei fod wedi dysgu cryn dipyn o ymgysylltu, yn arbennig o'r gweithgareddau a dargedwyd at grwpiau penodol megis pobl ifanc a gofalwyr. Ystyriwyd fod cyfarfodydd un i un yn arbennig o effeithiol o ran meithrin ymddiriedaeth gyda defnyddwyr gwasanaethau.

Anabledd, gwella mynediad, trafnidiaeth, 2013

Dywedodd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** wrthym fod ei waith i wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd wedi canolbwyntio ar y gymuned drawsryweddol. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad oedd pobl drawsryweddol yn ceisio mynediad at wasanaethau sgrinio, a gallai hynny gael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u lles.

I fynd i'r afael â hyn, trafododd y tîm ymgysylltu â sgrinio bryderon ac anghenion gofal iechyd gyda'r gymuned hon. Yn sgil hyn cafwyd nifer o fentrau i annog pobl drawsryweddol i ddefnyddio gwasanaethau sgrinio. Amlygodd y gwaith hwn fylchau o ran darpariaeth gwasanaeth. Er gwaethaf yr argymhelliad y dylai menywod rhwng 25-64 oed sydd wedi ailbennu eu rhywedd ac sydd dal â cheg y groth gael profion ceg y groth rheolaidd, mae'r cleifion hyn wedi'u cofrestru yn ddynion ac felly ni chant eu gwahodd yn awtomatig i gael prawf. Oni bai iddyn nhw ofyn yn bersonol am apwyntiad ni chant eu gwahodd yn rheolaidd ar gyfer prawf,
a gallai hynny beryglu eu bywydau.

Bwlch pellach a nodwyd oedd diffyg gwybodaeth briodol i fynd i'r afael ag anghenion penodol y gymuned drawsryweddol. Mynegodd rhai pobl ofn neu annifyrrwch wrth feddwl am gael profion ceg y groth tra roedd eraill wedi'u heffeithio'n negyddol gan agwedd ac ymddygiad rhai aelodau staff gofal iechyd.
Yn sgil y gwaith hwn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r gymuned drawsryweddol wedi cydweithio i gynhyrchu clip 'YouTube' i godi ymwybyddiaeth a hyder, a thaflenni gwybodaeth a luniwyd gan bobl drawsryweddol i gleifion ar yr amrywiaeth o wasanaethau sgrinio sydd ar gael, ynghyd â chwestiynau cyffredin a luniwyd ar gyfer staff.

Gwella mynediad, hawliau dynol, 2014

Mae gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** banel ymgysylltu sy'n trefnu digwyddiadau i unigolion, grwpiau cynrychiolaeth a grwpiau gwirfoddol. Mae'r CHC yn cymryd rhan yn y panel ymgysylltu.

Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod yn anodd cyrraedd cymunedau Trawsrywiol a Sipsiwn-Teithwyr ac i gael y grwpiau hyn i ymgysylltu â darpariaeth gwasanaethau. O ganlyniad i ymgysylltu, dywed Iechyd Cyhoeddus Cymru bod ganddynt well dealltwriaeth o farnau gwahanol grwpiau ffydd ar wasanaethau sgrinio a brechu, er enghraifft, brechiadau HPV i atal canser serfigol.

Hawliau dynol, 2013

Cynhaliodd **Prifysgol Abertawe** archwiliad cyflog cyfartal yn 2010 a nododd fwlch cyflog sylweddol rhwng y rhywiau. Mae ymgysylltu gyda'r Ddyletswydd Benodol wedi cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb yn y brifysgol. Mae'r brifysgol yn ystyried dwyn yr archwiliad cyflog cyfartal nesaf ymlaen. Mae'n cyflwyno Llwybr Gyrfa Academaidd newydd i sicrhau fod rolau yn cael eu hasesu yn deg. Mae'n adolygu ei ganllaw cyflog cychwynnol.

Gweithlu, hawliau dynol, 2013

Er mwyn ehangu mynediad a chynyddu amrywiaeth o ran myfyrwyr dywedodd **Prifysgol Abertawe** wrthym ei bod wedi ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau. Mae canllaw prifysgol 'Gay by Degree' Stonewall i fyfyrwyr posibl yn rhestr wirio deg pwynt sy'n darparu cyfraddiad ar ba mor gefnogol yw'r brifysgol i fyfyrwyr LGBT. Dros y deuddeng mis diwethaf mae'r brifysgol wedi dangos cynnydd wrth wella ei sgor o 6 allan o 10 i 8 allan o 10. Yn sgil hyn mae'r brifysgol yn un o dair brifysgol yng Nghymru sydd fwyaf cyfeillgar i bobl hoyw. Yng nghyswllt cyflogaeth ymgysylltodd y brifysgol â mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Offer meincnodi ar gyfer cyflogwyr yw hwn i fesur eu hymdrechion i greu gweithleoedd cynhwysol i gyflogeion lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Fel cyflogwr dringodd y brifysgol 78 o safleoedd i fyny mynegai Stonewall y llynedd. Dywedodd y brifysgol wrthym fod hyn yn adlewyrchu ei gwaith ar yr agenda LGBT. Gwnaeth 94% o'r bobl a ymgeisiodd am waith yn y brifysgol yn 2013 ddatgelu eu cyfeiriadedd rhywiol, gan ddangos fod cyflogeion posibl yn ystyried y brifysgol yn
gyflogwr cyfeillgar i bobl LGBT. Dywedodd y brifysgol wrthym ei bod o ganlyniad wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'r agenda LGBT o ran myfyrwyr a staff yn y brifysgol.

Gweithlu, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, hawliau dynol, 2014

Mae gan **Brifysgol Aberystwyth** banelau hyrwyddiadau academaidd sy'n adolygu ceisiadau ar gyfer dyrchafu i swyddi uwch. Mae yna awgrym fod hyn wedi arwain at fwy o degwch a thryloywder, ac wedi arwain at fwy o fenywod yn llenwi rolau uwch. Mae proses fentora wedi ei gynnwys i gefnogi staff. Bydd y brifysgol yn cyflawni ei archwiliad cyflogau trydydd parti yn 2013. bydd yn cynnal digwyddiad ford gron eleni i archwilio sut i gael mwy o fenywod i rolau uwch reolwyr. Mae'r Brifysgol wedi gwneud cais am wobr Athena Swan.Mae dod â'r mentrau hyn ynghyd mewn cynllun gweithredu, mewn ymateb i'r Ddyletswydd Benodol, wedi codi eu proffil a blaenoriaeth unigol.

Gwahanu galwedigaethol, gweithlu, cyflog cyfartal, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Prifysgol Aberystwyth** wrthym fod dau Gynghorydd Cymorth Hygyrchedd i Fyfyrwyr wedi'u penodi o ganlyniad i un fenter yn sgil ehangu mynediad a chynyddu amrywiaeth o ran myfyrwyr. Maen nhw'n gweithio gyda Chydlynwyr Anabledd Adrannol ac yn darparu cyngor a gwybodaeth am wasanaethau i gefnogi anghenion penodol ymgeiswyr a myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gadael gofal, myfyrwyr anabl a phobl ag anawsterau dysgu. Mae'r cynghorwyr yn rhagweithiol wrth nodi anghenion myfyrwyr fel rhan o'r broses dderbyn.

Ar hyn o bryd mae Prifysgol Aberystwyth yn adolygu ac yn ymgynghori ar ddichonolrwydd man myfyrio aml-ffydd o fewn y brifysgol i gefnogi myfyrwyr crefyddol a rhyngwladol a meithrin perthynas dda rhwng credoau gwahanol.

Crefydd neu gred, hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Prifysgol Aberystwyth** wrthym ei bod wedi adeiladu ar ei gwaith y llynedd i fynd i'r afael â'i nod cyflog cyfartal. Yn 2012 cafodd dyrchafiadau academaidd eu hadolygu fel rhan o'r cynllun gweithredu cyflog cyfartal. Yn flaenorol, roedden nhw'n seiliedig ar elfennau ymchwil, a oedd yn rhwystr i fenywod yr oedd eu gyrfaoedd yn aml yn ymwneud â dysgu a/neu arweinyddiaeth, ac o ganlyniad yn methu ymroddi amser ychwanegol i ymarferion ymchwil. Newidiodd y brifysgol ei meini prawf dyrchafu i gynnwys a chydnabod ymchwil, addysgu ac arweinyddiaeth, ac mae'r brifysgol yn hyderus y bydd yn galluogi mynediad tecach at gyfleoedd dyrchafu yn sgil hynny.

Prifysgol Aberystwyth yw'r brifysgol gyntaf yng Nghymru i roi band cyflog proffesiynol ar waith a fydd yn eu tyb hwy yn sicrhau tryloywder a chyfiawnder o ran y system gyflog. Disgwylir i Archwiliad Cyflog Cyfartal y Brifysgol gael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.

Hawliau dynol, 2014

Mae gan **Brifysgol Bangor** weithgor i adeiladu ar ei ddyfarniad Athena Swan. Mae hyn wedi edrych ar drefniadau absenoldeb mamolaeth ac wedi trefnu dyddiau datblygu i staff. Mae'r Ddyletswydd Benodol wedi arwain at wneud i'r Cyngor a'i Bwyllgor Tâl ymgysylltu mwy gyda chydraddoldeb a chyflog rhyw. Mae'r brifysgol yn gobeithio ehangu gwerthuso swyddi ac mae'n monitro ac adolygu tâl o ran cyflogau cychwynnol, ategolion y farchnad ac elfennau dewisol tâl staff uwch. Mae gan staff domestig ddewisiadau gweithio mwy hyblyg nawr.

Cyflog cyfartal, beichiogrwydd, gweithlu, 2013

Er mwyn ehangu mynediad, dywedodd **Prifysgol Bangor** wrthym fod ganddi Strategaeth Ehangu Mynediad ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth a Chanolfan Ehangu Mynediad sy'n cydlynu gweithgareddau. Dywedodd fod ei gwaith i hyrwyddo ehangu mynediad a chynyddu amrywiaeth ymhlith y myfyrwyr yn seiliedig ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Chynllun Strategol y Brifysgol. Mae'r brifysgol yn rhagweithiol wrth gefnogi myfyrwyr ag anghenion mynediad. Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn darparu canllaw ar faterion yn ysylltiedig ag anabledd i sicrhau bod myfyrwyr anabl yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn y gymuned academaidd a chymdeithasol.

Mae Canolfan Mynediad Bangor yn darparu asesiadau anghenion astudio i fyfyrwyr drwy nodi rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anabledd ac yn argymell strategaethau cymorth ac offer. Mae Canolfan Dyslecsia Miles yn darparu cymorth cyffredinol i fyfyrwyr sydd â dyslecsia a gwahaniaethau dysgu penodol eraill.

Mae gwasanaethau anabledd y brifysgol yn sicrhau bod anghenion myfyrwyr anabl presennol ac yn y dyfodol yn cael eu diwallu. Y nod yw nodi a dileu rhwystrau, mewnosod arfer effeithiol ac arfer cynhwysol. Dywed y brifysgol y bod hyn yn creu amgylchedd hyblyg a hygyrch, gan hybu cyfleoedd dysgu myfyrwyr. Mae cyfradd ddatgelu anabledd myfyrwyr ym Mangor yn aros yn uwch yn gyson na chyfartaledd Cymru.

Hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Prifysgol Bangor** wrthym y bod wedi adeiladu ar waith y flwyddyn flaenorol i fynd i'r afael â'i nod cyflog cyfartal dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r brifysgol yn ymgymryd ag archwiliadau blynyddol o ran cyflog cyfartal, a gaiff eu hadrodd wrth Weithgor Cyflog Cyfartal a Grwpiau Gorchwyl Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Adnoddau Dynol. Mae'r Uwch Bwyllgor Taliadau hefyd yn cael data sy'n gysylltiedig â rhywedd ac mae ymrwymiad i weithredu polisi cyflog dechreuol newydd. Cafodd cynllun gweithredu ei lunio ac mae gwaith yn parhau ynghylch ehangu'r raddfa gyflog sengl i gynnwys rolau Proffesiynol ac i lunio polisïau ar lwfansau..

Hawliau dynol, 2014

Dywedodd **Prifysgol Caerdydd** wrthym fod ei gwaith i ehangu mynediad a chynyddu amrywiaeth o ran myfyrwyr yn cynnwys adolygu trefniadau data monitro myfyrwyr. Gynt, ni chai crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol eu monitro. Penderfynodd y brifysgol y byddai'r data hwn yn ddefnyddiol i roi cymorth effeithiol i'r grwpiau hyn. Gellir darparu cymorth yn sgil nodi nifer a phynciau astudio myfyrwyr y gallai gael eu heffeithio arnynt pan fydd cyfnod Ramadan yn digwydd yn ystod arholiadau'r brifysgol.

Nododd yr adroddiad data monitro diwethaf y gallai fod cyfraddau dilyniant is i fyfyrwyr anabl, felly mae'r brifysgol yn nodi gweithredoedd i'w cefnogi nhw. Mae cyfraddau datgelu Prifysgol Caerdydd yn cynyddu'n flynyddol yn sgil ei hymrwymiad i gynyddu datgelu anabledd.

Ehangu mynediad, 2014

Er mwyn mynd i'r afael â'i nod cyflog cyfartal dywedodd **Prifysgol Caerdydd** wrthym ei bod wedi adeiladu ar waith y flwyddyn flaenorol a gafodd ei anelu i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau o ran cynrychiolaeth rhyweddol ym maes yr uwch gyfraddau a phynciau nad ydynt yn draddodiadol. Cafodd y brifysgol gwobrau Athena Swan am hybu cydraddoldeb o ran rhywedd ym maes pynciau STEM, (e.e. Mathemateg a Gwyddoniaeth). Drwy ddata dyrchafu gwnaeth y brifysgol fonitro effaith hyfforddiant a oedd wedi ei dargedu a mentora i ferched ar y staff. Mae hyn yn dangos cynnydd o ran ceisiadau a cheisiadau llwyddiannus gan ferched yn y tair blynedd ddiwethaf.

Gweithredodd y brifysgol gynllun peilot o fewn yr Ysgol Fusnes i gefnogi staff academaidd ar lwybr gyrfa perthnasol, dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth, tadolaeth ychwanegol neu absenoldeb mabwysiadu. Gallai staff sy'n ceisio am yr absenoldeb hwn ofyn am gyfnod o 'amser ymchwil gwarchodedig' heb ddyletswyddau addysgu neu weinyddol, neu ostyngiad o ran un neu'r ddwy elfen hyn o'u swyddi. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi dilyniant gyrfa academyddion sy'n ferched o fewn yr Ysgol Fusnes. Mae un academydd wedi cymryd ei habsenoldeb (a'i orffen) ac mae tri chais ychwanegol wedi'u cael ers i'r cynllun ddechrau.

Gwahanu galwedigaethol, beichiogrwydd, gweithlu, hawliau dynol, 2014

Roedd **Prifysgol Caerdydd** wedi defnyddio data monitro cydraddoldeb i ddarganfod bod myfyrwyr ag anableddau ddim yn dod ymlaen cystal â myfyrwyr heb anableddau. Rhoddwyd rhaglen waith mewn lle i geisio darganfod beth oedd achos hyn ac i geisio gwella profiadau myfyriwr ag anableddau ar y campws. (CY).a programme of work to find out why this was the case and to try to improve the experience of disabled students on campus.

anabledd, NatCen

Roedd **Prifysgol Caerdydd** yn cymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall14, a oedd, yn eu barn hwy, wedi cynorthwyo'r Brifysgol i 'brif-ffrydio cydraddoldeb i'n hymarferion gan arwain at welliannau i staff a myfyrwyr'. Gwnaeth hyn trwy eu cynorthwyo 'i adolygu ein polisïau, gweithdrefnau ac ymarferion er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb LGB wedi ei osod ynddynt'.

Gweithlu, cyfeiriadedd rhywiol, NatCen

Mae **Prifysgol Glyndŵr** yn adolygu ei bolisi dyrchafiad. O ganlyniad i'r Ddyletswydd Benodol, mae gan y brifysgol amcan cydraddoldeb yn ei Gynllun Gweithredu i gynnal adolygiad cyflog cyfartal ffurfiol yn ystod 2014. Mae'r 'Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o grwpiau staff a'r myfyrwyr i sicrhau fod cydraddoldeb wedi ei fewnosod, ac mae'n adolygu gwneud cais am achrediad Athena Swan.

Gweithlu, hawliau dynol, 2013

Er mwyn ehangu mynediad a chynyddu amrywiaeth o ran myfyrwyr dywedodd **Prifysgol Glyndŵr** wrthym ei bod wedi dechrau Modiwl Dysgu ar gyfer Cyflogadwyedd fel rhan o gwrs FdA Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol. Caiff y cwrs ei gyflenwi o fewn y gymuned, ac fe'i hanelir yn bennaf at bobl anabl, pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r modiwl yn darparu 20 o gredydau prifysgol, a all gyfrif tuag at gyfleoedd dysgu addysg uwch a phellach.

Mae'r cwrs yn cael ei gyflenwi mewn adeiladau Cymunedau yn Gyntaf a phobl ddi-waith neu NEET sy'n ei fynychu yn bennaf. Cynlluniwyd y cyrsiau i gynyddu dyheadau ac annog cyfranogaeth o ran addysg uwch. Y nod yw gwella sgiliau, gan gynnwys sgiliau cyflwyno, gwaith tîm ac ysgrifennu CV. Mae'r cyrsiau hefyd yn cynnwys ymweliadau i'r brifysgol i gwrdd â myfyrwyr, edrych o gwmpas, trafod ffioedd ac opsiynau ariannol. Mae ymweliadau i ganolfannau diwydiannau lleol i siarad â chyflogeion cyfredol, trafod amodau gwaith, sut i wneud cais a beth mae cyflogwyr yn edrych amdano mewn cyflogeion posibl. Rhan allweddol y cwrs yw cyfweliad ffug i ddatblygu sgiliau angenrheidiol a rhoi cyfle gwell i fyfyrwyr gael cyflogaeth.

Cofrestrodd deuddeg o drigolion lleol ar y cwrs cyntaf gydag wyth ohonynt yn ei orffen. Aeth pedwar yn syth i fynychu cyrsiau pellach a gwnaeth dau gais i ymuno â'r brifysgol ym mis Medi. Mae'r cyrsiau i ehangu mynediad yn cael eu cynnig ar draws Gogledd Cymru.

Anabledd, hil, plant a phobl ifanc, cymunedau difreintiedig, 2014

Cwblhaodd **Prifysgol Cymru Casnewydd** ei ail archwiliad cyflog yn ddiweddar. Mae'r Ddyletswydd Benodol wedi arwain at adroddiadau rheolaidd ar gyflogau rhywiau gwahanol i'r Bwrdd gydag argymhellion ar gyfer gweithredu. Mae'r Brifysgol yn edrych ar ei pholisïau parthed gweithio hyblyg, absenoldeb gofalwyr, a dyrchafu i wella'r cydbwysedd rhyw. Mae'n adolygu tâl goramser.

Cyflog cyfartal, gweithlu, hawliau dynol, 2013

Er mwyn mynd i'r afael â'i nod cyflog cyfartal dywedodd **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant** wrthym ei bod wedi gweithio yn agos gydag undebau llafur, a'i bod wedi ymgymryd â Dadansoddiad Rôl Addysg Uwch (HERA) ar draws amryw o deuluoedd swyddi. Bu hyn yn rhan o ymarfer cydgordio ehangach ar bob agwedd o gontractau cyflogaeth. Roedd y brifysgol yn gallu adrodd nad oedd y cyfuniadau wedi effeithio'n andwyol ar y cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran y strwythur rheoli.

Gweithlu, hawliau dynol, 2014

Er mwyn ehangu mynediad a chynyddu amrywiaeth o ran myfyrwyr dywedodd **Prifysgol De Cymru** wrthym mai un prosiect maen nhw'n arwain arno yw'r prosiect Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI). Nod hwn yw cynyddu cyfranogaeth gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd addysg uwch a phellach, yn arbennig y rheiny o gymunedau difreintiedig. Cafodd ei sefydlu i daclo'r gyfranogaeth isel ymhlith cymunedau blaenau'r cymoedd ym myd addysg uwch. Yn 2012/13 roedd 1663 o ddysgwyr newydd yn sgil y prosiect hwn, ac mae wedi cynyddu i 3305 yn y flwyddyn academaidd bresennol. Cefnogir y prosiect gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r Brifysgol yn gweithio gyda cholegau addysg uwch, darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol, busnesau, ysgolion a sefydliadau gwirfoddol i'w galluogi i lwyddo. Dylai Cymoedd De Cymru weld adfywiad yn sgil ei lwyddiant, gan hybu cynhwysiad cymdeithasol a gwella hunan werth, gan helpu gwella cyfleoedd am swyddi ac ansawdd bywyd y rhai sy'n byw ac yn gweithio yno. Enillodd y prosiect wobr yng Ngwobrau Prifysgol y Guardian yn 2013 am ei ymrwymiad i ehangu cyfranogaeth.

Ehangu mynediad, cymdeithasol-economaidd, 2014

Er mwyn mynd i'r afael â'i nod cyflog cyfartal dywedodd **Prifysgol De Cymru** wrthym ei bod gan mwyaf wedi adeiladu ar waith blaenorol i ddatblygu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth. Canfu'r Archwiliad Cyflog Cyfartal nad oes bwlch cyflog sylweddol gan y brifysgol, ond cydnabu fod materion o fewn y gweithlu ynghylch gwahanu galwedigaethol a goramser. Mae'r brifysgol wedi cymryd camau i sicrhau bod cyfleoedd goramser yn cael eu cynnig yn deg i'r holl staff.

Mae gwaith newydd i fynd i'r afael â nod cyflog y brifysgol yn gysylltiedig â'r llwybr i'r staff i gyflawni Cadeiriau Athrawon a Darllenyddiaeth. Cafodd hwn ei ailwampio i ddarparu llwybrau gyrfaol clir ym maes ymchwil a datblygiad, addysgu a dysgu ac arloesi ac ymgysylltu. Y nod yw cynorthwyo mwy o fenywod i gyrraedd y lefel uchaf. Ers i'r newidiadau cael eu cyflwyno'r llynedd, cafodd 4 athro benywaidd ac 8 Darllenwraig eu gwobrwyo â theitlau.

Gweithlu, nenfwd gwydr, hawliau dynol, 2014

Cyflawnodd **Prifysgol Fetropolitan Caerdydd** archwiliadau cyflog cyfartal yn 2010 a 2011. Roedd y rhain yn awgrymu bwlch cyflog ar lefelau uwch a phroffeswrol. O ganlyniad i'r Ddyletswydd Benodol, mae'r brifysgol yn ymestyn gwerthusiad swyddi i'r meysydd hyn. Mae'r brifysgol yn gobeithio cynyddu'r nifer o fenywod mewn rolau
uwch trwy gyflwyno mwy o gysondeb a thryloywder i'r systemau apwyntiadau a datblygu gyrfaoedd. Mae'r brifysgol yn gobeithio sicrhau achrediad Athena Swan.

Gweithlu, hawliau dynol, 2013

Er mwyn mynd i'r afael â'i nod cyflog cyfartal dywedodd **Prifysgol Fetropolitan Caerdydd** wrthym ei bod wedi adeiladu ar fentrau'r blynyddoedd blaenorol. Ymgymerwyd ag ymarfer gwerthuso swyddi reolwyr Lefel 3 ac Athrawon ac yn sgil hynny cytunwyd ar strwythur cyflog newydd, cafodd cytundebau i athrawon eu hadolygu ac maen nhw'n cael eu hail-gyflwyno ar hyn o bryd.

Gweithlu, hawliau dynol, 2014

Cyflawnodd **Prifysgol Morgannwg** archwiliad cyflog cyfartal yn 2011 ac mae'n gweithio ar nifer o weithredoedd a gododd o'r adroddiad. Ar hyn o bryd mae'r brifysgol yn sefydlu nifer o Athrofeydd Ymchwil. Yn rhan o'r broses hon, bydd y nifer o ddynion a menywod yn cael eu monitro'n ofalus ac fe ystyrir rhoi cydnabyddiaeth i'r heriau atodol a wynebir gan fenywod. Galluogodd y Ddyletswydd Benodol i ddod â nifer o faterion ynghyd mewn cynllun gweithredu yn rhoi proffil uwch iddynt.

Mae'r brifysgol yn cynllunio archwiliad cyflog cyfartal manylach ar gyfer staff academaidd a chefnogaeth ac mae'n gobeithio sicrhau achrediad Athena Swan.

Rhywedd, gweithlu, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** wrthym fod targedu gweithredoedd atal tân, gan gynnwys Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref, i bobl â chyflyrau iechyd meddwl yn faes gwaith sy'n gynyddol ymestyn. Cafodd y mentrau hyn eu llywio gan ddata diogelwch cymunedol ar draws y DU. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd Hywel Dda ac Abertawe Bro Morgannwg i rannu data. Yn sgil hyn mae nyrsys Iechyd Meddwl yn gallu asesu risg tai a nodi unigolion. Mae rhannu'r data hwn gyda'r Gwasanaeth Tân yn sicrhau cymorth ac addysg ar atal tân sydd wedi eu targedu. Roedd gwaith arall mewn partneriaeth a soniwyd amdano yn cynnwys gweithio gyda Heddlu Dyfed Powys i daclo Troseddau Casineb a Throseddau Cyfeillio.

Adroddodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru eu bod yn ymgysylltu'n gynyddol â grwpiau cydraddoldeb a chymunedol ar draws ei ranbarth gwasanaeth. Mae gweithgareddau penodol a nodir yn eu Hadroddiad Cydraddoldeb Flynyddol yn cynnwys gweithio gyda'r Ganolfan Gymunedol Tsieineaidd a Thîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig yn Abertawe i gyflenwi Anerchiadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gweithio gyda Total Communications i sicrhau bod cyngor ar Ddiogelwch Tân yn y Cartref yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion y rheiny ag anableddau dysgu.

Soniodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wedi helpu symud cydraddoldeb i fyny agenda'r sefydliad a bod cydraddoldeb bellach yn cael ei ystyried yn ganolog i sut mae'n cyflenwi ei wasanaethau.

Anabledd, ymgysylltiad, hawliau dynol, 2014

Mae tîm Diogelwch Cymunedol **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** yn cyflawni Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref ac mae'r meini prawf ar gyfer y rhain yn cynnwys nodweddion gwarchodedig megis oed (pobl ifanc a hŷn), a phobl anabl. Mae menter benodol wedi canolbwyntio ar reolaeth effeithlon o ddigwyddiadau yn ymwneud â chleifion Bariatrig. Mae'r tîm yn cynnwys defnyddwyr BSL.

Anabledd, hawliau dynol, 2013

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** yn bositif ynglŷn ag effaith y Dyletswyddau Penodol. Mae data o'r gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn cael ei ddefnyddio i hysbysu ymgyrchoedd a strategaeth gymunedol targedig. Mae ymgysylltu gyda grwpiau a sefydliadau allanol wedi cynyddu. Mae 28 o sefydliadau trydydd sector wedi derbyn hyfforddiant i gyflawni gwiriadau diogelwch yn y cartref ac mae 26 o gytundebau lefel gwasanaeth a 9 memorandwm cydddealltwriaeth wedi eu sefydlu gyda sefydliadau cymunedol, gan gynnwys sefydliadau pobl anabl.

Anabledd, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru** wrthym am ei waith i wella ansawdd y data cydraddoldeb y mae yn ei gasglu. Mae hyn yn cynnwys llunio ffurflen fonitro cydraddoldeb Ôl Helyntion. Mae'r ffurflen fonitro newydd yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig, yn dilyn helyntion nad oedd yn angheuol yr oedd y gwasanaeth wedi'i galw atynt. Mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu cwmni ymchwil preifat i ddadansoddi'r data a gasglwyd i ddeall yn well nodweddion y rheini sydd mewn perygl. Disgwylir y caiff y data ei ddadansoddi a'i osod yn barod erbyn Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2013-14.

Adroddodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wrthym am ei waith i ddatblygu ei brosiect Beiciwr i Lawr. Gan ddefnyddio data monitro damweiniau beic modur difrifol nododd y gwasanaeth mai dynion yn eu 40au a'u 50au yw'r mwyaf tebygol o ddioddef damweiniau beic modur difrifol. O ganlyniad mae'r gwasanaeth yn benodol wedi targedu'r grŵp hwnnw i fynychu'r cwrs. Cwrs addysgol ac ymrwymo yw Beiciwr i Lawr sydd wedi'i anelu at gymuned y beicwyr modur i ostwng nifer y damweiniau ffordd angheuol neu sy'n achosi anafiadau difrifol. Cyflawnir hyn drwy roi dealltwriaeth well i gyfranogwyr o'r hyn i wneud pan maen nhw'n dod ar draws damwain ffordd a sut i'w reoli'n ddiogel.

Soniodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wrthym mai dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus oedd y catalydd i wella ansawdd y data cydraddoldeb yr oedd yn ei gasglu. Roedd monitro'r Comisiwn o'i gweithgareddau wedi bod yn ddefnyddiol iawn i godi cydraddoldeb a'r ddyletswydd cydraddoldeb i fyny agenda arweinyddion.

Traws, ymgysylltiad, 2014

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** yn cyflogi gweithwyr cefnogaeth diogelwch yn y cartref sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith y byddar ac mae'n darparu larymau tân i bobl gyda nam ar eu clyw a phobl gyda nam ar eu golwg a systemau ysgeintio symudol i'r rhai gyda mudoledd cyfyngedig.

Anabledd, gweithlu, nam ar y golwg, nam ar y clyw, hawliau dynol, 2013

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** yn bositif ynglŷn â'r effaith a gaiff y Dyletswyddau Penodol, gan ddweud y byddant "yn cael effaith bositif ar gymunedau yng Nghymru". Mae asesiadau effaith cydraddoldeb wedi symud i fyny'r agenda. O ganlyniad i'r dyletswyddau mae yna amcan cydraddoldeb i ddadansoddi'r data sy'n gysylltiedig â marwolaethau tân a phobl anabl. Cyflawnodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 26,000 o wiriadau diogelwch tân yn y cartref yn 2012, ac roedd gan 8,000 o'r rhain ddeiliaid anabl. Mae Grŵp Tasg yn ystyried pa gamau gweithredu sydd angen eu cyflawni.

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, gweithlu, anabledd, hawliau dynol, 2013

Mae **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** yn gweithio gyda Scope i gynnig lleoliadau profiad gwaith. Mae'r gwasanaeth wedi llofnodi'r Siarter Cyflogwr Ystyrlon i arddangos ei fod yn dilyn ymagwedd bositif tuag at iechyd meddwl staff.

Iechyd meddwl, anabledd, gweithlu, hawliau dynol, 2013

Dywedodd **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru** wrthym am ddata yn nodi bod pobl ifanc (16-25 mlwydd oed) yn fwy tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol gan ddamweiniau ffordd nag unrhyw oedran arall. Wrth ymateb i'r data hwn, maen nhw wedi sicrhau arian ar gyfer prosiect ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru i geisio gostwng nifer y damweiniau hyn. Nod y prosiect yw cyflenwi yn y flwyddyn nesaf ymyriadau rhyngweithiol uniongyrchol i dros 700 o'r unigolion yn y grŵp oedran hwn sydd dan y risg fwyaf. Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar lwyddiant ac ymagwedd y Rhaglen Phoenix drwy gynnwys pobl ifanc i ddarparu atebion, cymorth a chanllaw i gyfoedion a fydd yn canolbwyntio ar effaith y damweiniau ffordd difrifol neu angheuol hyn.

Dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthym fod gan dros 12,000 o eiddo yng Ngogledd Cymru system fonitro gofal bell i wella diogelwch a lles preswylwyr. Pobl hŷn a phobl anabl yw'r rhain gan mwyaf. Drwy adolygu data helyntion tân, nododd y Gwasanaeth gynnydd yn nifer y galwadau i eiddo pobl hŷn ac anabl. Drwy weithio gydag Awdurdodau Lleol gwelwyd bod dros 3300 o eiddo o'r math hwn heb system fonitro gofal bell. Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau arian grant i osod systemau monitro gofal pell ar unwaith yn 30% o'r math hwn o eiddo.

Soniodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am y strategaeth ymgynghori a gafodd ei lunio gan ei Dîm Cyfathrebu Corfforaethol i sicrhau y byddai data monitro cydraddoldeb yn cael ei gasglu ymhob rhyngweithiad cyhoeddus digwyddiadau allanol a chymunedol.

Oed, anabledd, hawliau dynol, 2014

Roedd **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** wedi cyfuno eu cysylltiadau a'u hadnoddau gyda sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru ac wedi darparu digwyddiad ymrwymiad ar y cyd. Trwy wneud hyn roeddynt o'r farn eu bod wedi cael mwy o fudd o ymgynghori â mwy o aelodau o'r gymuned a grwpiau am eu hanghenion, a helpu gyrru ymlaen eu nodau cydraddoldeb, yn fwy nag y byddent wedi ei wneud fel sefydliad unigol.

NatCen

Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** wedi bod yn rhedeg Prosiect Brithwaith gyda Pharciau Cenedlaethol eraill. Roedd hyn yn golygu datblygu cynllun gweithredu i wella mynediad ac i ddenu mwy o bobl o grwpiau BME i ddefnyddio'r parc cenedlaethol. Penodwyd swyddogion ym mis Ionawr 2012. Ers hynny mae 20 Eiriolwr Cymunedol wedi eu recriwtio a chynhaliwyd digwyddiadau blynyddol ym Mharciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog. Bu'r Eiriolwyr Cymunedol yn gyfrifol am drefnu nifer o ymweliadau â'r parc yn ystod y dydd a'r nos i bobl BME.

Hil, hawliau dynol, NatCen

Roedd **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**, er enghraifft,wedi egluro sut roedd eu hyfforddiant ymwybyddiaeth cyffredinol 'wedi cynorthwyopobl i ddeall pam roedd gofyn iddynt wneud yr hyn y disgwylid iddynt ei wneud'

gweithlu, NatCen

Cynhaliodd y **Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau** gynhadledd fawr i adolygu effeithiau posibl y newidiadau i'w isadeiledd digidol ymhlith grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Roedd staff y DVLA yno, ynghyd ag eiriolwyr amrywiaeth, cynrychiolwyr o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus,grwpiau cydraddoldeb ac aelodau o'r gymuned. Roedd y cynrychiolwyr wedi cyfrannu i weithdai a sesiynau siaradwyr a oedd yn cynnwys Eiriolwr Amrywiaeth y Gwasanaeth Sifil, Sir Paul Jenkins. Yn benodol, edrychodd y DVLA ar y modd roedd meddalwedd cynorthwyol yn rhyngweithio gyda rhai o'i systemau, gan gynnwys sgriniau cyfrifiadur a'r effaith bosibl ar hygyrchedd, gan gynnwys hygyrchedd i bobl â nam ar eu golwg. Roedd un grŵp yn cynnwys pobl ag anabledd yn trafod hygyrchedd TG ac roedd yr ymgynghoriad hwn wedi cynorthwyo staff i ystyried sut maent yn trafod newidiadau mewn meddalwedd a mynediad i wasanaethau er mwyn cwrdd ag anghenion eu holl gwsmeriaid.

Traws, anabledd, nam ar y golwg, hawliau dynol, NatCen

Casglodd y **Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau**, wrth ddadansoddi data staff bod unigolion BME yn cael eu tan-gynrychioli yn y sefydliad. Awgrymodd ymgynghoriadau gyda grwpiaulleiafrifoedd ethnig lleol nad oedd pobl yn deall y cymwysterau oedd eu hangen ar gyfer swyddi gyda'r DVLA. Mewn ymateb i hyn cynhaliodd y sefydliad ffair swyddi yn ddiweddar, yn targedu unigolion BME, a gweithdai i gynnig mwy o wybodaeth i bobl am y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y gwahanol swyddi. Mae'n rhy gynnar i wybod a yw hyn wedi gwella recriwtio ond mae'r sefydliad yn rhagweld mwy o geisiadau gan unigolion BME yn y gymuned.

Hil, recriwtio, gweithlu, hawliau dynol, NatCen

Roedd **Cartrefi RCT** wedi ymgymryd â llawer o waith mewn ymateb i'r PSED. Roeddynt wedi adnabod meysydd ble roedd angen sylw ac wedi dechrau gosod mewn lle y gwaith oedd ei angen er mwyn gwella'r ddarpariaeth i'w tenantiaid. Buont yn amlinellu'r ffordd yr oeddynt wedi sefydlu eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ac hefyd sut roeddynt yn cynllunio i asesu'r newidiadau mewn polisi ac ymarfer maent am eu cyflwyno.

Dywedodd Cartrefi RCT bod eu 'CCS wedi ei ddatblygu trwy ddadansoddi data cyfrifiad i Rhondda Cynon Taf a defnyddiwyd ein data proffilio i roi syniad i ni o'r prif faterion sydd yn effeithio ar ein cymunedau. Cynhaliwyd grwpiau trafod yn allanol gyda staff a thenantiaid tra bod y strategaeth hon yn cael ei datblygu er mwyn deall beth oedd ystyr cydraddoldeb ac amrywiaeth i wahanol grwpiau ac i adnabod y prif faterion oedd yn effeithio arnynt. Mae gennym gynllun cysylltiedig sydd yn manylu ar y nodau, sut rydym am eu cyrraedd a'u mesur. Adolygir y cynllun hwn o leiaf unwaith bob blwyddyn. (CY).

Roedd datblygiadau yn codi o'r gwaith hwn wedi cynnwys teilwria gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl â nam ar eu golwg, mynd i'r afael â throseddau casineb ac ymddygiad anghymdeithasol, cefnogi tenantiaid sydd yn wynebu trais ar yr aelwyd a rhoi llais cryfach i bob tenant yn y penderfyniadau a wneir gan y gymdeithas. Un maes arall o gynnydd a nodwyd gan Gyfarwyddwr y gymdeithas oedd achrediad yr RNIB. Cynigiodd enghraifft o'r ffordd yr oedd hyn wedi lleihau unigrwydd cymdeithasol un tenant oedrannus â nam ar ei golwg *'…rydym wedi cynnal achrediad RNIB, eto, mewn cartrefi i bobl oedrannus yn nhermau tai cysgodol a chartrefi gofal… Pan fyddwn yn clywed am bobl sydd yn ddall neu â nam ar eu golwg, pan fyddant yn dweud wrthym gallwn wneud y gwaith. Felly fe ddefnyddiom y data proffil i edrych ar bobl oedd wedi asesu eu hunain a nodi bod ganddynt nam ar eu golwg ac fe ddysgom bod dros 500 o bobl… Gwnaethom ddarn o waith sampl, mewn partneriaeth â'r RNIB, gan wneud gwaith rhagweithiol gyda phobl i archwilio'r math o wasanaethau byddent yn eu hoffi neu gael budd ohonynt nad ydynt yn eu derbyn ar hyn o bryd. Ac … rydym yn cyflogi Swyddog Cefnogaeth Golwg… [Un] wraig hŷn na fu yn yr eglwys am ddeng mlynedd – roedd hi [y Swyddog] wedi cysylltu â'r offeiriad, yntau wedi cysylltu ag aelod o'r plwyf a oedd wedi trefnu ei chasglu a mynd â hi i'r eglwys.…Felly, ei galluogi hi a lliniaru ei hunigrwydd cymdeithasol yn y gymuned'* (Cyfweliad).

Anabledd, cam-drin domestig, oed, hawliau dynol, NatCen

Nododd Cyfarwyddwr **Cartrefi RCT** bod dynion, yn gyffredinol, yn dominyddu'r 'crefftau' sydd yn cynnal eu cartrefi. Mewn ymdrech i ddenu menywod i gynnig am y swyddi hyn, roeddynt wedi darparu diwrnodau blasu, sgyrsiau mewn ysgolion, gweithdai, a chysgodi-gwaith i fenywod.

Gwahanu galwedigaethol, rhywedd, hawliau dynol, NatCen

Pan oedd **Cartrefi RCT** yn adnewyddu uned o dai gwarchod ar gyfer pobl oedrannus roeddynt wedi talu sylw penodol i anghenion y tenantiaid oedd yn gorfod cael eu symud dros dro. Er mwyn osgoi gwahaniaethu yn erbyn tenant â dementia, roeddynt wedi ei symud i fflat yn debyg i'w fflat ei hun. Roedd hyn yn sicrhau bod y tenant mor gyfarwydd a chysurus â phosibl.

Oed, anabledd, hawliau dynol, NatCen

Mae **Chwaraeon Cymru** wedi sefydlu grwpiau cydraddoldeb a fydd yn darparu cipolwg werthfawr ar gyfer AECau y dyfodol ac ymgynghoriadau ar newidiadau arfaethedig sydd yn berthnasol i grwpiau gwarchodedig. Maent hefyd wedi sicrhau ymrwymiad ar lefel y Bwrdd ac wedi cyflwyno cynlluniau gweithredu a chardiau sgorio er mwyn gyrru gweithredu eu nodau ymlaen.

Asesu Effaith Gydraddoldeb, traws, gweithlu, rhwydweithiau staff, NatCen

Ymgymerodd **Coleg Gŵyr Abertaw**e â nifer o weithgareddau i hybu perthnasau da a hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ymhlith eu myfyrwyr. Maent wedi sefydlu Ffeiriau Amrywiaeth blynyddol sydd yn fwyfwy poblogaidd, gan gynnwys perfformiadau, gweithdai a stondinau. Mae tua 1,000 o fyfyrwyr wedi mynychu'r ffeiriau bob blwyddyn. Roedd tua 120 o fyfyrwyr Chwaraeon wedi mynd i'r gweithdai Dangoswch y Cerdyn Coch yn y coleg fel rhan o ymgyrch ehangach, genedlaethol, i ddileu hiliaeth mewn chwaraeon.

Addysg, traws, hil, hawliau dynol, NatCen

Roedd **Coleg Gŵyr Abertawe** wedi bod yn hel gwybodaeth ac adborth fesul nodweddion gwarchodedig, a oedd, medden nhw,'wedi cynorthwyo'r Coleg i adnabod materion yn effeithio ar wahanol grwpiau a chymharu bodlonrwydd. 'Mae hefyd wedi galluogi'r Coleg i 'adnabod grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli a gweithredu strategaethau gweithgarwch cadarnhaol megis targedu sesiynau blasu i recriwtio mwy o fenywod i fyd Peirianneg a hysbysebu swyddi trwy ein cysylltiadau gyda grwpiau a sefydliadau BME yn y gymuned.'Yn olaf, yr oedd 'wedi arwain at fwy o ffocws ar ymrwymiad i grwpiau gwarchodedig gwahanol, yn enwedig ymrwymiad i fyfyrwyr ag anableddau a gofalwyr a sefydliadau anabledd i gynorthwyo'r Coleg i wella mynediad i gyfleusterau, gwasanaethau, pontio a chefnogi gwasanaethau'.

Traws, gwahanu galwedigaethol, anabledd, hawliau dynol, NatCen

Gweithredodd **Coleg Sir Gâr** 'ymgyrch "parch" fel modd o hybu agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb a defnyddiwyd nifer o weithgareddau i hyrwyddo'r neges'. Mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol yn benodol roeddynt wedi cefnogi ymgyrch gan fyfyrwyr Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol i fynd i'r afael â bwlio homoffobaidd a lleihau'r defnydd o iaith sarhaus yn eu herbyn.

addysg, NatCen

Roedd **Coleg Sir Gâr** wedi defnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb i gydnabod maimaterion perthnasol i anabledd oedd yn gosod yr her fwyaf mewn perthynas â mynediad i adeiladau a datblygiad yn eu cyrsiau. Cymerodd y coleg gamau i gwrdd ag anghenion staff a myfyrwyr ag anableddau megis darparu 'mwy o addasiadau ... i sicrhau bod yr ystâd yn ateb y diben' a 'mwy o hyfforddiant i staff … i sicrhau bod staff yn ymwybodol o ac yn deall anghenion pobl ag anabledd. (CY).

gweithlu, NatCen

Roedd **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** hefyd wedi bod yn cefnogi awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill, megis Tân ac Achub, i osod ei hisadeiledd cydraddoldebmewn lle, eu cynorthwyo i wella'r data monitro cydraddoldeb ac ymchwilio i sut roedd cyrff cyhoeddus yn defnyddio AECau yn y dull mwyaf addas.

Asesu Effaith Gydraddoldeb, NatCen

Disgrifiodd **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** y modd yr oedd y dyletswyddau wedi cynorthwyo cydlynu gwaith gyda sefydliadau a hwyluso cydweithredu rhwng sefydliadau partner:

‘mae’r ddyletswydd benodol i gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) wedi bod yn gyfrwng i symud hyn ymlaen trwy ddwyn ynghyd elfennau a oedd yn unigol cyn hyn ac annog trafodaeth ar draws adrannau a gwasanaethau. Trwy hyn, gosodir sylfaen cydraddoldeb ar draws sefydliadau, gan ychwanegu gwerth mewn nifer o feysydd. Mae’r symleiddio hyn yn fodd hefyd o gefnogi ymdrin rhwng partneriaid, gan ychwanegu at gyfleoedd i uno gweithgareddau ar draws sectorau a gwella cysylltiadau gyda meysydd blaenoriaethol megis mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd. (CY).

NatCen

Roedd **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru** wedi creu lyfrgell adnoddau i’w ddefnyddio wrth gynnal AECau a chodwyd tîm bychan â phrofiad o AECau i weithredu fel adnodd i weddill y sefydliad. Yr enghraifft amlycaf o’r offer oedd datblygu taflenni byrion. wedi eu teilwria, ar gael ar y rhyngrwyd yn aml er mwyn mynediad sydyn. Roedd y taflenni hyn yn crynhoi’r ffeithiau i weithwyr a allai fod o ddefnydd cyfeirio yn eu swyddogaeth.

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, gweithlu, NatCen

Roedd **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (HEFCW) wedi gwneud cynnyddmewn perthynas ag archwilio sut roedd eu sector yn ymateb i faterion megis darparu ar gyfer pobl o wahanol grefyddau a phobl â chyflyrau iechyd meddwl, ac roedd wedi cyhoeddi arweiniad ar gyngor i fyfyrwyr beichiog.

Crefydd neu gred, anabledd, beichiogrwydd. Addysg, hawliau dynol, NatCen

Sylwodd **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** nad oedd aelodau o'u staff yn adrodd gwybodaeth am gydraddoldeb yn llawn ar system TG AD. Er mwyn gwella'r bylchau yn eu gwybodaeth monitro, bu cydweithwyr AD a'r Tîm Cydraddoldeb yn adolygu'r system AD ac yna yn datblygu system hysbysu i annog staff i gyfrannu trwy gyfrwng atgoffeb cyson awtomatig ar e-bost. Defnyddiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arweiniad Stonewall i egluro pam roedd AD yn monitro a chasglu'r wybodaeth i gefnogi staff yn well wrth ddeall pwysigrwydd datgelu eu gwybodaeth. Trwy wneud hyn cynyddodd gwybodaeth am dueddiadau rhywiol, er enghraifft, o 28% i 80% o'u gweithlu.

Cyfeiriadedd rhywiol, gweithlu, hawliau dynol, 2013

Roedd **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** wedi dadansoddi data staff a recriwtio ar gyfer Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2012-13 a chanfod bod 70% o'r gweithlu Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) yn y band cyflog isaf. Ar ôl siarad gydag aelodau unigol BME y staff drafftiodd y Tîm Cydraddoldeb gynllun gweithredu a oedd yn cynnwys mentrau megis cynyddu ymddiriedaeth a chael gwared â rhwystrau i staff BME. At hyn, roedd y Bwrdd Rheoli wedi cymeradwyo'r cynllun gweithredu a neilltuo adnoddau i roi'r cynllun ar waith.

Hil, gweithlu, cyflog cyfartal, hawliau dynol, 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Mae'r Cynulliad yn talu sylw arbennig i gydraddoldeb yn ystod y broses gaffael. Cyn dechrau ymarfer caffael mae'n ymhél ag Asesiad Risg Cynaliadwyedd, fydd yn edrych ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd angen eu hystyried wrth ddarparu'r contract. Os cydnabyddir materion sy'n peri pryder, mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rhain yn y fanyleb ac mae gofyn i'r darparwr nodi yn union sut mae'n bwriadu ymdrin â'r materion cydraddoldeb. Mae'r holiadur cyn-gymhwyso yn gofyn cwestiynau megis a ganfu Tribiwnlys Cyflogaeth fod y cyflenwr wedi gwahaniaethuyn anghyfreithlon yn y dair blynedd flaenorol. Fe all y cyflenwyr hynny sydd wedi gwahaniaethu gael eu gwahardd o'r broses dendro, oni bai bod ganddynt dystiolaeth eu bod wedi gweithredu mewn modd i atal hyn rhag digwydd eto. Yn y pen draw mae eu cyfleoedd o gael eu gwahodd i dendro yn lleihau. Nododd y Cynulliad y byddant yn rhannu eu polisïau cydraddoldeb gyda chontractwyr aflwyddiannus, mewn ymgais i'w codi i'w safonau hwy ar gyfer contractau yn y dyfodol.

2013

Roedd **Heddlu Gogledd Cymru** wedi canolbwyntio, er enghraifft, ar fynd i'r afael â throseddau casineb ac aflonyddu ar bobl gydag anableddau ar drafnidiaeth gyhoeddus trwy bartneriaethau gyda chwmni bws lleol. Dywedodd eu Pennaeth Cydraddoldeb:
'lansiwyd ymgyrch cyn y Nadolig parthed anabledd a'r camdriniaeth roedd pobl yn ei ddioddef ar drafnidiaeth gyhoeddus. Buom ni mewn partneriaeth gyda bysus Arriva a grwpiau cymunedol lleol yn gosod posteri ar hyd y lle am droseddau casineb anabledd. Roedd yma neges glir i ddioddefwyr ddweud wrth yr heddlu am y digwyddiadau hyn a rhybuddio troseddwyr posibl bod yr heddlu yn edrych yn ddifrifol ar y materion hyn ac yn barod i arestio' (Cyfweliad).

Er ei bod yn anodd i'r heddlu asesu effaith adrodd yn ôl am droseddau casineb roedd wedi bod yn anodd i'r heddlu asesu'r effaith ar droseddau casineb yn erbyn posibl ag anabledd yn nhermau a fyddai'r troseddu yn cynyddu neu yn lleihau ond nododd y cyfranogwr ei fod wedi derbyn adborth gan bobl ag anableddau. Dywedodd eu bod yn teimlo'n fwy cyffyrddus wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Roedd y posteri yn rhoi sicrwydd iddynt bod y cyhoedd yn gwybod bod aflonyddu ar bobl ag anableddau yn fater difrifol.

Anabledd, hawliau dynol, 2013

Roedd **Swyddfa Archwilio Cymru** wedi sefydlu grwpiau diddordeb cydraddoldeb gyda gwirfoddolwyr ymhlith y staff yn bresennol er mwyn cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig. Bydd ymgynghori â'r grŵp yn digwydd parthed polisïau newydd, yn effeithio ar staff a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd. Er mwyn dangos eu hymrwymiad i ymwneud â staff ar bob lefel, roedd y grwpiau wedi ethol dau aelod o staff i'r bwrdd. Trwy sefydlu grwpiau o'r math hwn teimlai'r cyfranogwr bod llai o risg i bolisïau ac ymarferion weithredu yn erbyn 'grwpiau gwarchodedig'.

Rhwydweithiau staff, traws, gweithlu, NatCen

Cynhaliodd **Swyddfa Archwilio Cymru** ymarfer gwerthuso o a chasglu manylion am sut mae pobl ar yr un raddfa gyflog yn cael eu talu. Dangoson nhw bod mwy o ddynion nag o fenywod mewn swyddi uwch a gwahaniaeth yn strwythur y cyflogau gyda menywod yn ennill 20% yn llai na dynion, ar gyfartaledd. Roedd y gwell dealltwriaeth hyn o faterion perthnasol i gyflogau wedi eu hannog i adolygu'r prosesau recriwtio a dyrchafu. Maent yn y broses o lansio arolwg ymhlith y staff i roi cyfle iddynt siarad am y mater.

Cyflog cyfartal, gwahanu galwedigaethol, gweithlu, hawliau dynol, NatCen

Pwy ydyn ni
Nod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw lleihau anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, cryfhau cysylltiadau da rhwng pobl, a hyrwyddo a diogelu hawliau dynol.

Cysylltwch â ni
Cysylltwch â'r Comisiwn yng Nghymru ar gyfer gwybodaeth bellach am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, neu ymwelwch â'n gwefan:

www.equalityhumanrights.com/wales

Ebost: wales@equalityhumanrights.com

Ffôn: 029 2044 7710